Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Gorffennaf 2017

# Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol i Fil yr Undebau Llafur (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe’i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd ei baratoi a’i osod yn wreiddiol ym Mis Ionawr 2017 yn unol â Rheol Sefydlog 26.6, ac mae Memorandwm diwygiedig yn cael ei osod bellach yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, mae darpariaethau Bil yr Undebau Llafur (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 16 Ionawr 2017, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

***Mark Drakeford AC***

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Yr Aelod Cynulliad sy’n gyfrifol am y Bil

4 Gorffennaf 2017

# Tudalen gynnwys

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

1. Disgrifiad
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH**

7. Yr Opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesiadau Penodol o Effaith
10. Asesu’r Gystadleuaeth

**ATODIAD 1 – DIFFINIAD O “AWDURDODAU DATGANOLEDIG CYMREIG”**

**ATODIAD 2 – NODIADAU ESBONIADOL**

**ATODIAD 3 – MYNEGAI I’R RHEOLAU SEFYDLOG**

**ATODIAD 4 – TABL DIWYGIADAU**

**ATODIAD 5 – ATODLEN O DDIWYGIADAU**

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## Pennod 1: Disgrifiad

1.1 Mae Bil yr Undebau Llafur (Cymru) ("y Bil") yn diwygio darpariaethau yn y Trade Union Act 2016 (p.15) sy'n cael effaith andwyol ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae adrannau 3, 13, 14 a 15 o Trade Union Act y DU, sy'n diwygio Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, yn pennu gofynion newydd mewn perthynas â chynnal pleidlais ar weithredu diwydiannol, amser cyfleuster a threfniadau didynnu o'r gyflogres (trefniadau lle mae'r cyflogwr yn tynnu'r tâl tanysgrifio i undeb llafur o gyflog y cyflogai). Bydd y Bil yn dadwneud effaith y darpariaethau hyn er mwyn diogelu'r modd y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru yn y dyfodol.

1.2 Mae darpariaeth yn y Bil hefyd i wahardd awdurdodau datganoledig Cymreig rhag defnyddio gweithwyr a gyflenwir gan asiantaethau cyflogaeth (y cyfeirir atynt yn y Bil fel "busnesau cyflogaeth") i weithio yn lle'u gweithwyr arferol pan fyddant yn gweithredu'n ddiwydiannol.

# Pennod 2: Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn Neddf yr Undebau Llafur (Cymru) (“y Bil”) o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”). Mae darpariaethau perthnasol Deddf 2006, i’r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cael eu nodi yn adran 108 ac yn Atodlen 7.

2.2 Mae’r paragraffau a ganlyn yn Atodlen 7 yn nodi’r pynciau y dibynnir arnynt, i’r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

*Nid yw’r testun hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi’i gwneud yn Gymraeg ydyw.*

**1. Agriculture, forestry, animals, plants and rural development**

Agriculture. Horticulture. Forestry. Fisheries and fishing. Animal health and welfare. Plant health. Plant varieties and seeds. Rural development.
In this Part of this Schedule “animal” means—
(a) all mammals apart from humans, and
(b) all animals other than mammals;
and related expressions are to be construed accordingly.

*Exceptions*—
Hunting with dogs.
Regulation of scientific or other experimental procedures on animals.
Import and export control, and regulation of movement, of animals, plants and other things, apart from (but subject to provision made by or by virtue of any Act of Parliament relating to the control of imports or exports)—
(a) the movement into and out of, and within, Wales of animals, animal products, plants, plant products and other things related to them for the purposes of protecting human, animal [or plant] health, animal welfare or the environment or observing or implementing obligations under the Common Agricultural Policy, and
(b) the movement into and out of, and within, Wales of animal feedstuff… fertilisers and pesticides (or things treated by virtue of any enactment as pesticides) for the purposes of protecting human, animal or plant health or the environment.
Authorisations of veterinary medicines and medicinal products.

**2. Ancient monuments and historic buildings**

Archaeological remains. Ancient monuments. Buildings and places of historical or architectural interest. Historic wrecks.

**3. Culture**

Arts and crafts. Museums and galleries. Libraries. Archives and historical records. Cultural activities and projects.

*Exceptions*—

Public lending right.
Broadcasting.
Classification of films, and video recordings.
Government indemnities for objects on loan.
Payments to Her Majesty's Revenue and Customs in respect of property accepted in satisfaction of tax, apart from property in which there is a Welsh national interest.

**4. Economic development**

Economic regeneration and development, including social development of communities, reclamation of derelict land and improvement of the environment. Promotion of business and competitiveness.

*Exceptions*—

Fiscal, economic and monetary policy (except so far as relating to devolved taxes) and regulation of international trade.
Regulation of anti-competitive practices and agreements, abuse of dominant position and monopolies and mergers.
Intellectual property, apart from plant varieties.
Creation, operation, regulation and dissolution of types of business association.
Insolvency.
Product standards, safety and liability, apart from in relation to food (including packaging and other materials which come into contact with food), agricultural and horticultural products, animals and animal products, seeds, fertilisers and pesticides (and things treated by virtue of any enactment as pesticides).
Consumer protection, including the sale and supply of goods to consumers, consumer guarantees, hire purchase, trade descriptions, advertising and price indications, apart from in relation to food (including packaging and other materials which come into contact with food), agricultural and horticultural products, animals and animal products, seeds, fertilisers and pesticides (and things treated by virtue of any enactment as pesticides).
Financial services, including investment business, banking and deposit-taking, collective investment schemes and insurance.
Occupational and personal pension schemes (including schemes which make provision for compensation for loss of office or employment, compensation for loss or diminution of emoluments, or benefits in respect of death or incapacity resulting from injury or disease), apart from schemes for or in respect of Assembly members, the First Minister, Welsh Ministers appointed under Adran 48, the Counsel

General or Deputy Welsh Ministers and schemes for or in respect of members of local authorities.
Financial markets, including listing and public offers of securities and investments, transfers of securities, insider dealing and money laundering.
Telecommunications, wireless telegraphy (including electromagnetic disturbance), internet services and electronic encryption.
Postal services, post offices and the Post Office, apart from financial assistance for the provision of services (other than postal services and services relating to money or postal orders) to be provided from public post offices.
Generation, transmission, distribution and supply of electricity…
Energy conservation, apart from the encouragement of energy efficiency otherwise than by prohibition or regulation.
Coal, including mining and subsidence, apart from land restoration and other environmental matters.
Oil and gas…
Nuclear energy and nuclear installations and the Office for Nuclear Regulation —
(a) including nuclear safety and liability for nuclear occurrences;
(b) but not including disposal of very low level radioactive waste moved from a site requiring a nuclear site licence.
Units and standards of weights and measurement and the regulation of trade so far as involving weighing, measuring and quantities.
Industrial Development Advisory Board.

**5. Education and training**

Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.

*Exception*—
Research Councils.

**6. Environment**

Environmental protection, including pollution, nuisances and hazardous substances. Prevention, reduction, collection, management, treatment and disposal of waste. Land drainage and land improvement. Countryside and open spaces (including the designation and regulation of national parks and areas of outstanding natural beauty). Nature conservation and sites of special scientific interest. Protection of natural habitats, coast and marine environment (including seabed). Biodiversity. Genetically modified organisms. Smallholdings and allotments. Common land. Town and village greens. Burial and cremation, except coroners' functions.

## 7. Fire and rescue services and fire safety

Fire and rescue services. Provision of automatic fire suppression systems in newly constructed and newly converted residential premises. Promotion of fire safety otherwise than by prohibition or regulation.

## 8. Food

Food and food products. Food safety (including packaging and other materials which come into contact with food). Protection of interests of consumers in relation to food.

"Food" includes drink.

## 9. Health and health services

Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.

*Exceptions*—

Abortion.
Human genetics, human fertilisation, human embryology, surrogacy arrangements.
Xenotransplantation.
Regulation of health professionals (including persons dispensing hearing aids).
Poisons.
Misuse of and dealing in drugs.
Human medicines and medicinal products, including authorisations for use and regulation of prices.
Standards for, and testing of, biological substances (that is, substances the purity or potency of which cannot be adequately tested by chemical means).
Vaccine damage payments.
Welfare foods.
Health and Safety Executive and Employment Medical Advisory Service and provision made by health and safety regulations.

## 10. Highways and transport

Highways, including bridges and tunnels. Streetworks. Traffic management and regulation. Transport facilities and services.

*Exceptions*—

Registration of local bus services, and the application and enforcement of traffic regulation conditions in relation to those services.

Road freight transport services, including goods vehicles operating licensing.
Regulation of the construction and equipment of motor vehicles and trailers, and regulation of the use of motor vehicles and trailers on roads, apart from—
(a) any such regulation which—
    (i) relates to schemes for imposing charges in respect of the use or keeping of vehicles on Welsh trunk roads ("trunk road charging schemes"), or
    (ii) relates to the descriptions of motor vehicles and trailers which may be used under arrangements for persons to travel to and from the places where they receive education or training, unless the regulation is the setting of technical standards for construction or equipment of motor vehicles or trailers which differ from the standards that would or might otherwise apply to them; and
(b) regulation of the use of motor vehicles and trailers carrying animals for the purpose of protecting human, animal or plant health, animal welfare or the environment.
Road traffic offences.
Driver licensing.
Driving instruction.
Insurance of motor vehicles.
Drivers' hours.
Traffic regulation on special roads, apart from regulation relating to trunk road charging schemes.
Pedestrian crossings.
Traffic signs, apart from the placing and maintenance of traffic signs relating to trunk road charging schemes.
Speed limits.
International road transport services for passengers.
Public service vehicle operator licensing.
Documents relating to vehicles and drivers for purposes of travel abroad and vehicles brought temporarily into Wales by persons resident outside the United Kingdom.
Vehicle excise duty and vehicle registration.
Provision and regulation of railway services, apart from financial assistance which—
    (a) does not relate to the carriage of goods,
    (b) is not made in connection with a railway administration order, and
    (c) is not made in connection with Regulation (EC) No 1370/2007 of the European Parliament and of the Council on public passenger transport services by rail and by road.
Transport security, apart from regulation relating to the carriage of adults who supervise persons travelling to and from the places where they receive education or training.
Railway heritage.
Aviation, air transport, airports and aerodromes, apart from—
    (a) financial assistance to providers or proposed providers of air transport services or airport facilities or services,

(b) strategies by the Welsh Ministers or local or other public authorities about provision of air services, and

(c) regulation of use of aircraft carrying animals for the purposes of protecting human, animal or plant health, animal welfare or the environment.

Shipping, apart from—

(a) financial assistance for shipping services to, from or within Wales, and

(b) regulation of use of vessels carrying animals for the purposes of protecting human, animal or plant health, animal welfare or the environment.

Navigational rights and freedoms, apart from regulation of works which may obstruct or endanger navigation.

Technical and safety standards of vessels.

Harbours, docks, piers and boatslips, apart from—

(a) those used or required wholly or mainly for the fishing industry, for recreation, or for communication between places in Wales (or for two or more of those purposes), and

(b) regulation for the purposes of protecting human, animal or plant health, animal welfare or the environment.

Carriage of dangerous goods (including transport of radioactive material).

Technical specifications for fuel for use in internal combustion engines.

## 11. Housing

Housing. Housing finance except schemes supported from central or local funds which provide assistance for social security purposes to or in respect of individuals by way of benefits. Encouragement of home energy efficiency and conservation, otherwise than by prohibition or regulation. Regulation of rent. Homelessness. Residential caravans and mobile homes.

## 12. Local government

Constitution, structure and areas of local authorities. Electoral arrangements for local authorities. Powers and duties of local authorities and their members and officers. Local government finance.

"Local authorities" does not include police and crime commissioners.

*Exceptions*—

Local government franchise.

Electoral registration and administration.

Registration of births, marriages, civil partnerships and deaths.

Licensing of sale and supply of alcohol, provision of entertainment and late night refreshment.

Orders to protect people from behaviour that causes or is likely to cause harassment, alarm or distress.

Local land charges, apart from fees.

Sunday trading.

Provision of advice and assistance overseas by local authorities in connection with carrying on there of local government activities.

## 13. National Assembly for Wales

Complaints about Assembly members (including provision for and about an office or body for investigating such complaints and reporting outcome of investigations). Assembly Commission. Salaries, allowances, pensions and gratuities for and in respect of Assembly members, the First Minister, Welsh Ministers appointed under section 48, the Counsel General and Deputy Welsh Ministers. Register of interests of Assembly members and the Counsel General. Meaning of Welsh words and phrases in Assembly Measures and Acts of the Assembly, in subordinate legislation made under Assembly Measures and Acts of the Assembly and in other subordinate legislation if made by the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General. Private legislation in the Assembly. Financial assistance for political groups to which Assembly members belong. The Welsh Seal. Arrangements for the printing of Acts of the Assembly, of subordinate legislation made under Assembly Measures and Acts of the Assembly and of other subordinate legislation if made by the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General. Budgetary procedures.

Budgetary procedures” are procedures for a financial year relating to—

(a) the authorisation of the amount of resources which may be used or retained in that year by relevant persons or pursuant to a relevant enactment,

(b) the authorisation of the amount which may be paid out of the Welsh Consolidated Fund in that year to relevant persons or for use pursuant to a relevant enactment, or

(c) the scrutiny of the use of the amounts so authorised under paragraph (a) or (b) or of the exercise of borrowing powers by the Welsh Ministers.

The following are “relevant persons”—

(a) the Welsh Ministers,
(b) the First Minister,
(c) the Counsel General,
(d) the Assembly Commission,
(e) the Wales Audit Office, and
(f) the Public Service Ombudsman for Wales.

A “relevant enactment” is an enactment which provides for payment out of the Welsh Consolidated Fund.

The reference to the use of resources is a reference to their expenditure, consumption or reduction in value.

**14. Public administration**

Public Services Ombudsman for Wales. Auditor General for Wales. Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities. Inquiries in respect of matters in relation to which the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General exercise functions. Equal opportunities in relation to equal opportunity public authorities. Access to information held by open access public authorities.

The following are “auditable public authorities” and “equal opportunity public authorities”—

(a) the Assembly,
(b) the Assembly Commission,
(c) the Welsh . . . Government,
(d) persons who exercise functions of a public nature and in respect of whom the Welsh Ministers exercise functions,
(e) persons who exercise functions of a public nature and at least half of the cost of whose functions in relation to Wales are funded (directly or indirectly) by the Welsh Ministers, and
(f) persons established by enactment and having power to issue a precept or levy.

The following are “open access public authorities”—

(a) the Assembly,
(b) the Assembly Commission,
(c) the Welsh Government, and
(d) authorities which are Welsh public authorities, within the meaning of the Freedom of Information Act 2000 (c 36).

*Exception*—

Regulation of the profession of auditor.

**15. Social welfare**

Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults. Care of children, young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards. Badges for display on motor vehicles used by disabled persons.

*Exceptions*—

Child support.

Child trust funds, apart from subscriptions to such funds by—

(a) a county council or county borough council in Wales, or
(b) the Welsh Ministers.

Tax credits.

Child benefit and guardian's allowance.

Social security.

Independent Living Funds.

Motability.

Intercountry adoption, apart from adoption agencies and their functions, and functions of “the Central Authority” under the Hague Convention on

Protection of Children and Co-operation in respect of Intercountry Adoption.

The Children's Commissioner (established under the Children Act 2004 (c 31)).

Family law and proceedings, apart from—

(a) welfare advice to courts, representation and provision of information, advice and other support to children ordinarily resident in Wales and their families, and

(b) Welsh family proceedings officers.

**16. Sport and recreation**

Sport and recreational activities.

*Exception*—

Betting, gaming and lotteries.

**16A. Taxation**

Devolved taxes (as defined in Adran 116A(4)).

**17. Tourism**

Tourism.

**18. Town and country planning**

Town and country planning, including listed buildings and conservation areas. Caravan sites. Spatial planning. Mineral workings. Urban development. New towns. Protection of visual amenity.

*Exception*—

Development consent under the Planning Act 2008

**19. Water and flood defence**

Water supply, water resources management (including reservoirs), water quality and representation of consumers of water and sewerage services. Flood risk management and coastal protection.

*Exceptions*—

Appointment and regulation of any water undertaker whose area is not wholly or mainly in Wales.

Licensing and regulation of any water supply licensee within the meaning of the Water Industry Act 1991 (c 56), apart from regulation in relation to licensed activities using the supply system of a water undertaker whose area is wholly or mainly in Wales.

## 20. Welsh language

Welsh language

*Exception*—

Use of the Welsh language in courts.

# Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

3.1 Rhaid ystyried Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yng nghyd-destun cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, sy'n cwmpasu ystod eang o swyddogaethau allweddol yn y gwasanaethau cyhoeddus, a nodir yn fanwl ym Mhennod 2. Mae llawer o'r gwasanaethau allweddol hyn yn cael eu darparu drwy awdurdodau datganoledig Cymreig a grëwyd drwy gyfrwng deddfwriaeth. Os yw'r awdurdodau Cymreig hynny am ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, rhaid wrth weithlu brwdfrydig ac ymroddedig.

3.2 Yn achos nifer o wasanaethau allweddol, mae recriwtio, cadw, datblygu a grymuso gweithlu sefydlog, ymroddedig a brwdfrydig yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau i bobl Cymru mewn modd effeithiol ac er mwyn wynebu heriau'r dyfodol. Mae'r berthynas rhwng y gwasanaethau hynny a'r gweithlu yn un sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac mae'n cael ei chynnal o fewn fframweithiau deddfwriaethol lle mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol. Mae'r fframweithiau deddfwriaethol hynny, gan gynnwys y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru, yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion; o faterion craidd yn ymwneud â'r gweithlu, megis tâl ac amodau gwasanaeth a gweithdrefnau penodi, i drefniadau sydd â'r nod o sicrhau'r lefelau uchaf posibl o ymgysylltu a gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl, a hynny o fewn awdurdodau datganoledig Cymreig a rhyngddynt.

3.3 Mae perthynas gref ac effeithiol â'r gweithlu yn elfen hollbwysig o'r trefniadau hynny, ac yn gonglfaen pwysig i agenda Llywodraeth Cymru o weithio ar sail partneriaethau cymdeithasol. Mae darpariaethau byr y Bil yn ceisio cefnogi'r agenda honno, oherwydd mai drwyddi hi y gallwn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru yn gwella'n gyson.

3.4 Bydd Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn gymwys i awdurdodau datganoledig Cymreig, sy'n cael eu diffinio yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler Atodiad 1). Bydd yn datgymhwyso'r darpariaethau a ganlyn yn y Trade Union Act 2016:

- Mae adran 3 (trothwy o 40%) yn diwygio adran 226 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52) i ddarparu, yn achos "important public services", bod yn rhaid i 40% o aelodau'r undeb sydd â hawl i bleidleisio fwrw'u pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol. Mae'r Bil yn darparu na fydd "important public services" yn cynnwys gwasanaethau iechyd, addysg ar gyfer pobl ifanc 0 dan 17 oed, gwasanaethau tân a gwasanaethau trafnidiaeth pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu yng Nghymru.

- Mae adran 13 (cyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster) sy'n mewnosod adran 172A i Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur

(Cydgrynhoi) 1992 (p. 52), yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y Goron ei gwneud yn ofynnol, drwy gyfrwng rheoliadau, i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth am yr amser cyfleuster a dreulir gan swyddogion perthnasol yr undebau llafur. Ni fydd "public sector employers" yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.

- Mae adran 14 (pwerau wrth gefn mewn perthynas ag amser cyfleuster) sy'n mewnosod adran 172B i Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52), yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol osod gofynion, drwy gyfrwng rheoliadau, ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus mewn perthynas ag amser cyfleuster â thâl. Ni fydd "public sector employers" yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.

- Mae adran 15 (didynnu drwy'r gyflogres) yn mewnosod adran 116B i Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52) er mwyn cyfyngu ar ddidynnu taliadau tanysgrifio i undebau o gyflogau yn y sector cyhoeddus. Ni fydd adran 15 yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.

3.5 Bydd y Bil hefyd yn gwahardd awdurdodau datganoledig Cymreig rhag defnyddio gweithwyr a gyflenwir gan asiantaethau cyflogaeth (y cyfeirir atynt fel "busnesau cyflogaeth" yn y Bil) i weithio yn lle'u gweithwyr arferol pan fyddant yn gweithredu'n ddiwydiannol.

3.6 Mae amcanion polisi'r Bil hwn yn seiliedig ar y weledigaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r weledigaeth honno'n un sydd wedi'i gwreiddio mewn egwyddorion partneriaethau cymdeithasol.

3.7 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol a phartneriaid eraill i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwella'n gyson. Bydd hynny'n creu gwasanaethau gwell i bobl yng Nghymru ac yn diogelu swyddi gweithwyr yn y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni hynny drwy gyfrwng partneriaethau cymdeithasol ag awdurdodau cyhoeddus Cymru a rhwng cyflogwyr, cyflogeion a'u cynrychiolwyr.

3.8 Gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol y mae Llywodraeth Cymru wrth reoli staff y sector cyhoeddus ac ymdrin â chysylltiadau diwydiannol yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ymrwymiad i bartneriaethau cymdeithasol yn cael ei amlinellu yn y ddogfen *'Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru – Fframwaith Strategol ar gyfer Gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' (2012)* sy'n dweud: "Credwn fod gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol fel hyn, sydd wedi llwyddo yn y gorffennol, fel y dangosodd yr uwchgynadleddau economaidd, yr un mor ddilys ar gyfer ymateb i her cyllidebau is a'r angen i wella gwasanaethau cyhoeddus i'r dinasyddion rydym yn eu gwasanaethu."

3.9 Mae’r dull hwn o weithredu yn wahanol iawn i’r dull mwy gwrthwynebol o weithredu a welir yn Lloegr ym maes cysylltiadau diwydiannol. Mae’r dull hwnnw’n cael ei adlewyrchu yn y Trade Union Act 2016.

3.10 Mae Trade Union Act y DU yn cyfyngu ar weithgareddau undebau llafur ac mae Llywodraeth Cymru o’r farn ei bod, wrth wneud hynny, yn tanseilio’r model gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yma yng Nghymru. Mae o’r farn ei bod hefyd yn tanseilio’r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ym marn Llywodraeth Cymru, gwelir y bydd Deddf y DU yn rhannu cymdeithas; yn arwain at fwy o wrthdaro yn y berthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac y bydd yn tanseilio’r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac economi Cymru, yn hytrach na diogelu gwasanaethau cyhoeddus fel yr haerwyd gan Lywodraeth y DU wrth i’r Trade Union Act fynd ar ei thaith drwy’r Senedd.

3.11 Mae agwedd wrthwynebol Llywodraeth y DU at gysylltiadau diwydiannol yn cael ei hadlewyrchu hefyd yn ei chynnig i ddirymu rheoliad 7 o Reoliadau Gweithrediad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003. Mae rheoliad 7 yn gwahardd busnesau cyflogaeth rhag cyflenwi gweithwyr i ymgymryd â dyletswyddau gweithwyr sy’n gweithredu’n ddiwydiannol. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU am y cynnig hwn ym mis Gorffennaf 2015 ond nid yw wedi cymryd unrhyw gamau pellach wedyn.

3.12 Mae’r Bil hwn, felly,yn atgyfnerthu’r broses o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac mae hefyd yn cryfhau’r cyfraniad y mae hynny’n ei wneud o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae’n gwneud hynny drwy gadw trefniant sydd wedi hen ennill ei blwyf gyda’r sector cyhoeddus ac sydd, dros amser, wedi bod yn fodd i gynnal perthynas gadarnhaol rhwng cyflogwyr a chyflogeion, gan gynnwys cydnabod hawliau’r undebau llafur i drefnu gweithredu diwydiannol ac i weithredu’n ddiwydiannol mewn amgylchiadau eithafol.

3.13 Bydd adran 1(4) yn datgymhwyso’r trothwy o 40% yn achos gweithredu diwydiannol gan weithwyr mewn awdurdodau datganoledig Cymreig. Mae llwyddiant y model yn dibynnu ar sicrhau cydbwysedd yn y berthynas rhwng y partneriaid cymdeithasol ac, yn benodol, yn y berthynas rhwng undebau llafur a chyflogwyr. Mae rhoi ffrwyn ar weithredu diwydiannol drwy bennu trothwy o 40% yn newid y cydbwysedd hwnnw ac nid yw’r model gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yn effeithiol hebddo. Os na fydd yr undebau llafur yn gallu cydweithio â chyflogwyr mewn ffordd gyfartal, bydd hynny’n cael effaith andwyol ar sut y maent yn cydweithio â phartneriaid cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

3.14 Bydd adran 1(3), sy’n datgymhwyso’r darpariaethau ar amser cyfleuster yn Trade Union Act y DU, yn cyfrannu at gynnal y dull hwn o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol oherwydd bod yr amser hwnnw’n

rhan annatod o weithio mewn partneriaeth yn y gweithle. Mae'r manteision sy'n gysylltiedig ag ef wedi'u cadarnhau ac yn eu plith y mae:

- Arbedion i'r cyflogwr ac i'r Trysorlys am fod llai o dribiwnlysoedd cyflogaeth yn cael eu cynnal;
- Manteision o ran y ffaith bod llai o ddiwrnodau'n cael eu colli oherwydd anafiadau yn y gweithle;
- Manteision am fod llai o salwch yn y gweithle;
- Llai o ddiswyddiadau;
- Llai o staff yn ymadael â'u swyddi'n gynnar;
- Gwell cynhyrchiant am fod gwell polisïau ar gyfer rheoli pobl, a'r polisïau hynny'n cael eu datblygu drwy drafodaethau rhwng cynrychiolwyr yn y gweithle a'r rheolwyr.

3.15 Er ei bod yn anodd mesur y manteision, mae yna dystiolaeth gref a gyflwynwyd wrth i Trade Union Act y DU fynd ar ei thaith drwy'r Senedd, sy'n dangos bod manteision ariannol sylweddol yn gysylltiedig ag amser cyfleuster.

3.16 Mae adran 1(2) yn dileu cyfyngiadau diangen ar yr amgylchiadau lle gall cyflogwyr yn y sector cyhoeddus ddidynnu taliadau tanysgrifio i undebau o gyflogau'r rheini a gyflogir ganddynt.

3.17 Mae adran 2, sy'n gwahardd awdurdodau datganoledig Cymreig rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol, yn cefnogi'r ffordd o weithio ar sail partneriaethau cymdeithasol drwy sicrhau nad yw gweithredu diwydiannol effeithiol a chyfreithlon gan undebau llafur yn cael ei danseilio. Er mwyn diogelu'r cydbwysedd yn y berthynas rhwng y partneriaid cymdeithasol, rhaid i weithredu diwydiannol barhau i fod yn erfyn defnyddiol mewn unrhyw drafodaethau. Mae hynny'n arbennig o bwysig o ystyried bwriad Llywodraeth y DU i ddirymu rheoliad 7 o Reoliadau Gweithrediad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003 sy'n gwahardd asiantaethau cyflogaeth rhag cyflenwi gweithwyr yn lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol.

## Pennod 4: Ymgynghori

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori am y cynigion drwy strwythurau sy’n hwyluso ffordd o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol wrth drafod materion sy’n ymwneud â gweithlu’r gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi trafod y cynigion gyda phartneriaid cymdeithasol yng Nghymru.

4.2 Ymgynghorwyd drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu – sef fforwm lle gall Llywodraeth Cymru, sefydliadau yn y sector cyhoeddus a’r undebau llafur yng Nghymru drafod materion sy’n ymwneud â gweithlu’r gwasanaethau cyhoeddus. Mae Trade Union Act Llywodraeth y DU ac ymateb Llywodraeth Cymru wedi bod yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu ers i Ddeddf y DU gael ei chyflwyno yn Senedd y DU ym mis Gorffennaf 2015. Mae trafodaethau wedi’u cynnal am amcanion polisi’r Bil ac mae aelodau’r Bartneriaeth yn ei gefnogi.

4.3 Gwrthwynebodd Llywodraeth Cymru agweddau allweddol ar gynigion deddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y Trade Union Act 2016, gan fynnu’n gyson bod meysydd sy’n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.4 Yn unol â’r confensiwn a sefydlwyd ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd pan fo Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Trafodwyd y cynnig hwnnw ar 26 Ionawr 2016 a phleidleisiodd yr Aelodau o fwyafrif llethol i beidio â rhoi eu cydsyniad, a hynny ar y sail bod y sector cyhoeddus datganoledig o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.

4.5 Yn y datganiad a wnaed ar 28 Mehefin 2016 gan Brif Weinidog Cymru am Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, cadarnhawyd y byddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno cyn gynted ag y bo modd i wrthdroi effaith y darpariaethau yn y Trade Union Act 2016 a oedd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.6 Ni chyhoeddwyd fersiwn ddrafft o’r Bil cyn iddo gael ei gyflwyno’n ffurfiol, a hynny am y rhesymau a ganlyn:

(a) roedd ymrwymiad i wrthdroi effaith adrannau o Trade Union Act Llywodraeth y DU ym maniffesto Llafur Cymru ar gyfer y Cynulliad ar gyfer etholiadau’r Cynulliad yn 2016;
(b) pleidleisiodd y Cynulliad blaenorol i wrthod rhoi caniatâd i Lywodraeth y DU ddeddfu ar y darpariaethau fel y’u cyflwynwyd;
(c) fel y nodir uchod, mae rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn trafod y datblygiad polisi hwn yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru ers i’r Ddeddf gael ei chyflwyno yn Senedd y DU;

(d) mae partneriaid cymdeithasol wedi pwysleisio bod gofyn mynd ati'n gyflym i gyflwyno'r Bil er mwyn rhoi sicrwydd a sicrhau parhad y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth bresennol, a fydd yn newid pan fydd Llywodraeth y DU yn cychwyn y Ddeddf.

4.7 Yn ystod haf 2015, aeth Llywodraeth y DU ati, ar yr un pryd â'i hymgynghoriad am y cynigion yn y Bil, i ymgynghori am gynigion i ddirymu rheoliad 7 o'r Rheoliadau Asiantaethau Cyflogaeth. Mae'r rheoliadau hynny'n gwahardd asiantaethau cyflogaeth rhag cyflenwi gweithwyr asiantaethau yn lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol.

4.8 Yn wahanol i'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r Trade Union Act 2016, gwelwyd oedi, ac mae wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gyhoeddi'r ymatebion a gwneud penderfyniad ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, ac mae'r gwaith hwnnw dal heb ei wneud.

4.9 O gofio bod ansicrwydd ynglŷn â chasgliadau Llywodraeth y DU am yr ymgynghoriad, aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgynghori ar wahân ar gynigion i wahardd awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol, a hynny er mwyn sicrhau nad yw gweithwyr asiantaethau'n cael eu defnyddio i danseilio gweithredu diwydiannol ac i wanhau partneriaethau cymdeithasol.

4.10 Gan nad oedd y cynigion hynny'n rhan o'r mandad a roddwyd ar gyfer darpariaethau gwreiddiol y Bil, a chan eu bod yn effeithio ar asiantaethau cyflogaeth nad ydynt yn rhan o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, roedd angen cynnal yr ymgynghoriad er mwyn dangos ar ba sail y gellid gwneud darpariaeth deddfwriaethol.

4.11 Mae'r ymgynghoriad a'r crynodeb o'r ymatebion i'w gweld drwy'r ddolen isod:
https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/defnyddio-gweithwyr-asiantaeth-pan-mae-gwasanaethau-cyhoeddus-cymru-yn-gweithredun

## Pennod 5: Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Bydd y Bil yn cael ei gychwyn drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Nid oes ynddo unrhyw bwerau eraill i wneud is-ddeddfwriaeth. Nid oes angen unrhyw weithdrefn ar gyfer y rheoliadau oherwydd bod y Cynulliad wedi craffu eisoes, yn ystod y broses ddeddfwriaethol, ar y darpariaethau sy'n ddarostyngedig i'r pŵer.

# Pennod 6: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae i'w weld isod.

6.2 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

6.3 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gael eu darparu mewn modd effeithiol.

6.4 Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael effaith ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ac ar undebau llafur sy'n gweithredu yn yr awdurdodau cyhoeddus hynny. Ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y sector preifat, ar elusennau nac ar y trydydd sector.

6.5 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer darpariaethau yn y Trade Union Bill, sydd erbyn hyn yn Trade Union Act 2016.

- Trade Union Bill Impact Assessment https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/493636/BIS-16-70-trade-union-bill-impact-assessment.pdf
- Ballot Thresholds in Important Public Services https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445514/BIS-15-418-IA-40_-threshold.pdf
- Impact assessment on reporting trade union facility time in the public sector https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/493638/BIS-16-71-trade-union-bill-impact-assessment-reporting-of-facility-time-in-the-public-sector.pdf
- Impact Assessment on the prohibition on deduction of union subscriptions from wages in the public sector https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/494133/BIS-16-83-trade-union-bill-impact-assessment-prohibition-on-deduction-of-union-subscriptions-from-wages-in-public-sector.pdf

6.6 Am nad oes fawr o ddata sy'n gysylltiedig â chynnwys y ddeddfwriaeth ar gael ar lefel Cymru, bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar gynnwys, rhagdybiaethau ac amcangyfrifon yn nogfennau Llywodraeth y DU a bydd yn manylu ar sut y gellir pennu'r costau a'r manteision i Gymru.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## CRYNODEB – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

| *Bil yr Undebau Llafur (Cymru)* | | |
|---|---|---|
| **Yr opsiwn a ffefrir: Opsiwn 2 (tudalennau 30-36)** | | |
| **Cyfnod:** Cyflwyno | **Cyfnod arfarnu:** 2017-18 – 2022-23 | **Blwyddyn sail brisiau:** 2016-17 |
| **Cyfanswm y Gost Cyfanswm: £486,000 Gwerth presennol: £442,700** | **Cyfanswm y Manteision Cyfanswm: £858,000 Gwerth presennol: £775,200** | **Gwerth Presennol Net (GPN): £332,500** |

### Cost weinyddol

| **Costau:**<br><br>Digwylir y bydd cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn wynebu costau trosiannol o £61,000 a fydd yn gysylltiedig ag ymgyfarwyddo ac â ffioedd cyfreithiol. Mae'r diffiniad o 'cyflogwr yn y sector cyhoeddus' fel y'i nodir yn y Ddeddf yn golygu y byddai'r cyflogwyr yn y sector cyhoeddus perthnasol yn cynnwys y cyrff cyhoeddus hynny a amlinellir yn y tabl ar ôl paragraff 8.22, ond ni fyddent yn gyfyngedig i'r rheini. | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £61,000** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £61,000** | **Gwerth Presennol: £58,900** |
| **Arbedion o ran costau:**<br><br>Ar sail asesiad effaith Llywodraeth y DU o'r costau rheolaidd a fydd yn gysylltiedig ag adrodd yn flynyddol ar amser cyfleuster, amcangyfrifir y byddai peidio â chael y darpariaethau sy'n ymwneud ag adrodd ar amser cyfleuster yn arwain at arbedion o gyfanswm o £171,700 y flwyddyn. Mae'r arbedion hynny o ran costau yn cael eu nodi o dan 'manteision' uchod. | | | |
| **Trosiannol: £61,000** | **Rheolaidd: £858,000** | **Cyfanswm: £858,000** | **Gwerth Presennol: £775,200** |
| **Arbedion net ar gostau gweinyddol: £797,500** | | | |

### Costau cydymffurfio

| Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau cydymffurfio. | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth Presennol: £** |

## Costau eraill

| |
|---|
| Ar sail yr asesiad effaith a baratowyd gan Lywodraeth y DU, byddai cost o lai na £85,000 y flwyddyn (£425,000 dros y cyfnod arfarnu) i'r sector cyhoeddus yng Nghymru o beidio â chael y ddarpariaeth ar drothwy o 40% o'r bleidlais. Mae'r gost hon yn seiliedig ar amcangyfrif o'r effaith net a gâi colli mwy o ddiwrnodau gwaith oherwydd gweithredu diwydiannol.<br><br>Gellir dadlau bod y berthynas rhwng cyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac undebau llafur yn sylfaenol wahanol ar draws awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru o'i chymharu â'r berthynas honno yn Lloegr. Y farn yw bod mantais net yn gysylltiedig â gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol ac felly, y byddai cost net o orfodi trothwyon o ran canran y bleidlais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Rheolaidd: £425,000** | **Cyfanswm: £425,000** | **Gwerth Presennol: £383,800** |

## Costau ac anfanteision nas mesurwyd

| |
|---|
| Ni chynhwysir y costau â gwerth ariannol sy'n gysylltiedig â dileu amodau ar y trefniadau ar gyfer didynnu drwy'r gyflogres (didynnu taliadau tanysgrifio i undebau llafur o gyflogau). Ni wyddys y costau hynny ond bernir eu bod yn ymylol i gostau gweinyddol eraill sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol ac nid oes unrhyw reidrwydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaeth hwn os ydynt o'r farn bod y costau'n feichus. |

## Manteision

| |
|---|
| Mae manteision gweithredu ar sail partneriaethau yn rhai ansoddol ac nid yw'n hawdd mesur y manteision o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Gan nad yw Llywodraeth y DU wedi pennu eto i ba awdurdodau cyhoeddus y bydd y trothwy o 40% o'r bleidlais yn gymwys, mae hynny'n golygu bod darparu dadansoddiad meintiol cynhwysfawr yn fater cymhleth. Y ffigur gwaelodlin uchaf a awgrymwyd yn y dadansoddiad a gynhaliwyd ar lefel y DU yw mantais o £85,000 yn sgil colli llai o ddiwrnodau gwaith oherwydd streiciau yn y gwasanaethau cyhoeddus pwysig a nodir yn y Ddeddf. |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm: £** | **Gwerth Presennol: £** |

## Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau a materion y mae ansicrwydd yn eu cylch

6.7 Mae'r dystiolaeth allweddol, y rhagdybiaethau a'r materion y mae ansicrwydd yn eu cylch yn cael eu hamlinellu yn yr adran isod ar gostau a manteision. Mae yna gymhlethdodau yn hyn o beth am nad yw'r darpariaethau y mae'r Bil yn ceisio gwrthdroi eu heffaith wedi eu cychwyn eto.

6.8 Mae'r crynodeb o'r costau'n cael ei ystyried ar y sail bod Deddf y DU wedi'i chychwyn, gan ragdybio y bydd Llywodraeth y DU yn cychwyn y darpariaethau yn ystod y misoedd nesaf hyn am eu bod wedi cael Cydsyniad Brenhinol.

# Pennod 7: Yr Opsiynau

7.1 Mae dau opsiwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Caiff y ddau opsiwn eu dadansoddi ar sail y costau a'r manteision. Dyma'r opsiynau hynny:

- Opsiwn un – Gwneud dim
- Opsiwn dau – Y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig a gyflwynir yn y Bil

**Opsiwn un – Gwneud dim**

7.2 Opsiwn un yw'r opsiwn lle na fyddai unrhyw newid. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r holl ddarpariaethau yn y Trade Union Act 2016 yn gymwys yng Nghymru. Prif anfantais yr opsiwn hwn yw'r risg i'r model presennol o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Opsiwn dau – Y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig a gyflwynir yn y Bil**

7.3 Dyma'r opsiwn a ffefrir ac mae'n cynnwys y tri mesur isod. Mae pob un ohonynt wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Maent yn ymdrin â'r holl elfennau a nodir yn yr adrannau ar opsiynau polisi. Dyma dair ran yr opsiwn:

- Opsiwn 2a: Trothwyon o ran canran y bleidlais
- Opsiwn 2b: Amser cyfleuster
- Opsiwn 2c: Taliadau tanysgrifio i undebau llafur

# Pennod 8: Costau a manteision

## Opsiwn un – Gwneud dim

8.1 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r holl ddarpariaethau yn y Trade Union Act 2016 yn gymwys yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi amcangyfrif costau a manteision y newidiadau sy'n gysylltiedig â chychwyn y Trade Union Act 2016 ar lefel y DU.

8.2 Mae dull Llywodraeth y DU o weithredu yn cael ei ystyried yng nghyd-destun asesu costau a manteision opsiwn dau. Manylir yn nogfennau Llywodraeth y DU ar sut yr aed ati i amcangyfrif y costau a'r manteision, ac mae'r manylion hynny i'w gweld yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a ganlyn:

- Trade Union Bill Impact Assessment https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/493636/BIS-16-70-trade-union-bill-impact-assessment.pdf
- Ballot Thresholds in Important Public Services https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445514/BIS-15-418-IA-40_-threshold.pdf
- Impact assessment on reporting trade union facility time in the public sector https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/493638/BIS-16-71-trade-union-bill-impact-assessment-reporting-of-facility-time-in-the-public-sector.pdf
- Impact Assessment on the prohibition on deduction of union subscriptions from wages in the public sector https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/494133/BIS-16-83-trade-union-bill-impact-assessment-prohibition-on-deduction-of-union-subscriptions-from-wages-in-public-sector.pdf

8.3 Oherwydd bod y Trade Union Act 2016 wedi'i chychwyn cyn y gall Bil yr Undebau Llafur (Cymru), a fydd yn datgymhwyso darpariaethau'r Ddeddf honno, ddod i rym, cymerwyd bod darpariaethau'r Ddeddf honno'n gymwys eisoes wrth fynd ati i asesu'r costau a'r manteision. Mewn gwirionedd, nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf wedi codi eto. Wrth asesu'r costau a'r manteision, defnyddiwyd dadansoddiad Llywodraeth y DU yn sail ar gyfer paratoi amcangyfrif o'r costau gwaelodlin ac o'r manteision i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

8.4 Gan gymryd bod y Ddeddf yn gymwys, nid oes felly unrhyw gostau ychwanegol na manteision i'r opsiwn gwneud dim.

8.5 Er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng costau a manteision y trefniadau presennol a'r costau a'r manteision pe bai'r Ddeddf wedi'i chychwyn, mae'r dadansoddiad a wnaed wrth bennu costau/manteision opsiwn dau yn nodi:

- Bod mantais bosibl o £85,000 y flwyddyn drwy weithredu trothwy o 40% o'r bleidlais ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus pwysig;
- Y byddai cost drosiannol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru oherwydd y byddai angen iddynt ymgyfarwyddo â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf y DU;
- Y byddai cost flynyddol, a fyddai'n gyfanswm o £171,000, i gyrff cyhoeddus oherwydd yr angen iddynt adrodd ar amser cyfleuster.

8.6 Gellir crynhoi canlyniadau ansoddol yr opsiwn 'gwneud dim' drwy gyfeirio at yr effaith ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

8.7 Yr hyn sy'n nodweddu dull Llywodraeth Cymru o weithredu mewn perthynas â chysylltiadau diwydiannol yw'r partneriaethau cymdeithasol. Mae'n amlinellu ei hymrwymiad i Bartneriaethau Cymdeithasol yn '*Gweithio gyda'n gilydd dros Gymru – Fframwaith Strategol ar gyfer Gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' (2012).* Mae hynny'n golygu bod streiciau wedi'u hosgoi yng Nghymru, gan gynnwys:

- Anghydfod y diffoddwyr tân – yn 2014, daeth yn glir yn ystod trafodaethau adeiladol a gynhaliwyd yng Nghymru fod rhai o bryderon Undeb y Diffoddwyr Tân am y cynllun pensiwn newydd yn ddigon rhesymol, ac y byddai modd mynd i'r afael â hwy. Drwy newid ychydig ar gydbwysedd buddion y cynllun pensiwn, sicrhawyd telerau gwell i'r rheini a oedd am ymddeol o 55 ymlaen. Dywedodd y Gweinidog wrth Undeb y Diffoddwyr Tân ym mis Hydref 2014 ei fod yn hapus i ymgynghori ar y cynnig hwnnw, ac ymatebodd yr Undeb drwy benderfynu peidio â chynnal streic. Aeth Llywodraeth yr Alban ati yn fuan wedyn i wneud yr un cynnig yn union i'r diffoddwyr tân. Aeth y streiciau yn eu blaen yn Lloegr, gan gynnwys cyfnod Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt sy'n gyfnodau risg uchel.

- Meddygon iau – Ym mis Medi 2015, am na lwyddwyd i ddod i gytundeb drwy gyd-drafod, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd y byddai'n gorfodi contract newydd ar feddygon newydd dan hyfforddiant yn Lloegr o fis Awst 2016 ymlaen. Cynhaliodd y BMA bleidlais ymhlith meddygon iau yn Lloegr ar weithredu diwydiannol. Fodd bynnag, cadarnhaodd y BMA yng Nghymru na fyddent yn cynnal pleidlais ar weithredu diwydiannol yng Nghymru, ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau na fyddai'n gorfodi contract newydd arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod yn agored gyda BMA Cymru.

- Agenda ar gyfer Newid staff y GIG – Ar ôl cyfnod o drafodaethau adeiladol yng Nghymru, aeth cyflogwyr yn y GIG a'r undebau llafur ati i baratoi papur ar y cyd yn amlinellu nifer o opsiynau cyflog i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru. Drwy weithredu yn y ffordd gynhwysol hon, arweiniodd hynny yn y pen draw at fargen dwy flynedd ar gyflogau yng Nghymru, a gafodd ei derbyn a'i rhoi ar waith yn llwyddiannus, gan osgoi'r risg o weithredu diwydiannol. Yn

Lloegr, fodd bynnag, gorfodwyd dyfarniad cyflog anghyfunol, ac arweiniodd hynny at weithredu diwydiannol ac at weithio yn ôl y rheolau, am na chafodd cynrychiolwyr y staff a'r undebau llafur eu gwahodd o'r cychwyn cyntaf i drafod ar ran eu haelodau.

- Addysg – Mae anghydfod yn bodoli ers cyn amser rhwng Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)/Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd trafodaethau adeiladol yng Nghymru er mwyn osgoi streiciau treigl a oedd i'w cynnal yn 2013. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny ac am fod canllawiau wedi'u datblygu ar arsylwi ar athrawon – a'r rheini'n ganllawiau y cytunwyd arnynt – cyhoeddwyd na fyddai streiciau yn cael eu cynnal yng Nghymru. Aeth y streiciau yn eu blaen yn Lloegr.

8.8 Mae'r dull hwn o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yn ffordd gynaliadwy o gynnal perthynas adeiladol ac agored, lle y gall partneriaid gyfrannu a pherchenogi heriau a materion, a lle y gallwn i gyd gydweithio i ddatblygu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

8.9 Mae gweithredu fel hyn yn dibynnu ar gynnal cydbwysedd yn y berthynas rhwng undebau llafur a chyflogwyr. Mae yna hefyd nifer o wrthddadleuon i'r canlyniadau a ragwelir gan Lywodraeth y DU. Er enghraifft :

- Os bydd y ddarpariaeth yn arwain at lai o weithredu diwydiannol, mae'n bosibl y gallai hynny olygu na fyddai'r undebau yn gallu mynd ati i gyd-drafod cyflogau. Mae cyflogau isel yn gallu cael effaith andwyol ar unigolion ac ar weithgarwch economaidd yn lleol;
- Gallai cyfyngu ar allu undebau llafur i streicio ac i sicrhau newidiadau yn y gweithle yn yr hirdymor (e.e. i delerau ac amodau) effeithio ar gynhyrchiant;
- Mae undebau llafur yn siarad o blaid amgylchedd mwy diogel yn y gwaith, yn mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac yn cynrychioli'r aelodau drwy godi materion y mae ganddynt bryderon yn eu cylch gyda'r cyflogwyr. Mae cyfyngu ar y gweithgareddau hyn yn arwain at gostau – er enghraifft, mwy o risg o ymgyfreitha – a hefyd at niwed posibl.

8.10 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn ffordd wahanol i Lywodraeth y DU wrth ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus. O ystyried y ffordd honno a'i chyferbynnu â'r dull o weithredu a fabwysiedir gan Lywodraeth y DU, bernir nad oes unrhyw fanteision i opsiwn un.

8.11 O ddewis opsiwn un, ni fyddai costau a manteision opsiwn dau yn cael eu gwireddu. Gan fod y Bil hwn yn ymateb i ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU, nid oes unrhyw ffyrdd eraill o gyflawni'r amcan polisi. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn y gorffennol yn gofyn i'r Trade Union Bil, fel yr oedd ar y pryd, gael ei

ddiwygio i adlewyrchu amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Roedd wedi gwneud hynny ar ôl y ddadl ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol lle gwrthododd y Cynulliad â rhoi ei gydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu.

**Opsiwn dau – Cynigion i gyflwyno deddfwriaeth**

8.12 Bydd y cynigion deddfwriaethol a amlinellir yma yn golygu y bydd cyflogwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus, yr undebau llafur a Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i ddatblygu dull o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus.

8.13 Maent yn cadw'r cydbwysedd sy'n bodoli eisoes rhwng cyflogwyr a'r undebau llafur yn y gweithle ac yn caniatáu'r hyblygrwydd iddynt gytuno ar faterion y mae Trade Union Act 2016 y DU naill ai'n ceisio cyfyngu arnynt neu'n rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth y DU gyfyngu arnynt.

8.14 Bydd arbedion o ran costau pan na fydd y costau rheolaidd sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion y Trade Union Act yn gymwys.

**Trothwy o 40% o gefnogaeth yr aelodau mewn gwasanaethau cyhoeddus 'pwysig'**

8.15 Nid yw'r asesiad effaith ar gyfer Trade Union Act y DU yn cynnwys adolygiad manwl o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithredu trothwy o 40% mewn gwasanaethau cyhoeddus 'pwysig'. Yn lle hynny, mae'n dweud y bydd y rolau a'r swyddogaethau y bydd y trothwy o 40% yn gymwys iddynt yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Heb yr wybodaeth ychwanegol am y rolau a'r swyddogaethau y bydd y darpariaethau'n gymwys iddynt, yr unig beth y gellir ei wneud yw rhoi asesiad bras o'r costau a'r manteision ar sail ffigurau cychwynnol Llywodraeth y DU ac yna amlinellu sut y bydd y model gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yn effeithio ar y gost/mantais honno.

8.16 Mae ffigurau cychwynnol Llywodraeth y DU, sy'n seiliedig ar bob galwedigaeth ac sy'n defnyddio'r un set ddata ag ar gyfer y trothwy o 50%, yn dangos y byddai'r trothwy o 40% yn arwain at ostyngiad ychwanegol o wyth pwynt canran yn nifer y diwrnodau gwaith sy'n cael eu colli oherwydd gweithredu diwydiannol. Byddai hynny'n ychwanegol at y gostyngiad a fyddai'n ganlyniad i gyflwyno'r trothwy lle byddai'n ofynnol i 50% o'r aelodau fwrw'u pleidlais.

8.17 Mae Llywodraeth y DU yn honni y byddai maint y fantais a fyddai'n deillio o gyflwyno trothwy o 40% (ar ben y trothwy lle byddai'n ofynnol i 50% o'r aelodau bleidleisio) yn rhyw 1/5ed (£1.7 miliwn) o'r fantais a fyddai'n deillio o'r trothwy o 50% mewn gwasanaethau cyhoeddus pwysig.

8.18 Drwy ddosrannu'r fantais a nodwyd yn asesiad effaith Llywodraeth y DU i Gymru ar sail poblogaeth, amcangyfrifir y byddai defnyddio'r trothwy o 40% yng Nghymru yn arwain at fantais o £85,000, (5%) o gyfanswm y fantais ar lefel y DU. Mae'r fantais honno hyd yn oed yn llai pan fo Diogelwch Ffiniau a thrafnidiaeth, a gafodd eu cynnwys yn asesiad Llywodraeth y DU, yn cael eu hepgor, a hynny oherwydd nad ydynt wedi'u datganoli, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

8.19 Ar sail asesiad effaith Llywodraeth y DU, pe na bai Cymru'n cymhwyso'r ddarpariaeth ar gyfer trothwy o 40% o'r bleidlais, byddai'r gost gysylltiedig i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn llai na £85,000 y flwyddyn. Mae'r gost hon yn seiliedig ar amcangyfrif o'r effaith net a gâi colli mwy o ddiwrnodau gwaith oherwydd gweithredu diwydiannol.

8.20 Mae'r berthynas rhwng cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r undebau llafur yn sylfaenol wahanol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel y dangosir o dan opsiwn un. Bernir bod mantais net yn gysylltiedig â gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac felly y byddai gosod trothwyon o ran canran y bleidlais yn arwain at gost net. Mae naratif i'w weld uchod yn amlinellu sut y mae dull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol wedi bod yn fodd i osgoi streiciau.

**<u>Amser cyfleuster a didynnu drwy'r gyflogres</u>**

8.21 Bydd cost drosiannol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru oherwydd y bydd angen iddynt ymgyfarwyddo â'r newidiadau a gaiff eu cyflwyno gan y ddeddfwriaeth a gyflwynir yng Nghymru. Aeth Llywodraeth y DU ati i asesu'r costau ymgyfarwyddo a fyddai'n gysylltiedig â'r darpariaethau sy'n ymdrin ag amser cyfleuster drwy ddethol a rhoi cost ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, ymddiriedolaethau'r GIG, y gwasanaethau tân, cwnstabliaethau (staff yr heddlu), ac awdurdodau lleol. Eir ati yn y tabl isod i nodi nifer y cyrff ym mhob categori yng Nghymru, gan wneud hynny ar sail y dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU.

8.22 Mae'r tabl hwn yn seiliedig ar gynnal chwiliad wedi'i dargedu ar y we am ffynonellau data sy'n cynnwys gwybodaeth am nifer y cyrff cyhoeddus yr effeithid arnynt. Rydym yn credu bod y ffigur terfynol yn cynrychioli nifer y sefydliadau y byddai'r gost ymgyfarwyddo hon yn berthnasol iddynt, ond gallai'r ffigur fod ychydig yn uwch.

**Cyrff cyhoeddus yng Nghymru y gallai'r darpariaethau ar amser cyfleuster effeithio arnynt**

| Corff Cyhoeddus | Nifer | Nodiadau |
|---|---|---|
| Awdurdodau cyhoeddus | 22 | |
| Ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir | 1,522 | http://gov.wales/docs/statistics/2016/160727-school-census-results-2016-cy.pdf |
| Y GIG | 10 | Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) |
| Y gwasanaethau tân | 3 | Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Gogledd a'r De |
| Gwasanaethau'r Heddlu | 4 | Gogledd Cymru, De Cymru, Dyfed-Powys a Gwent |
| Cyfanswm | 1,561 | |

8.23 At ddibenion yr asesiad hwn o effaith, rydym wedi rhagdybio mai'r staff a fydd yn gysylltiedig ag ymgyfarwyddo â'r rheoliadau arfaethedig hyn fydd swyddogion gweinyddol y sector cyhoeddus.

8.24 Mae'r data dros dro yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer 2016 yn dangos bod yr enillion gros canolrifol ar gyfer galwedigaethau gweinyddol: llywodraeth a sefydliadau cysylltiedig yn £10.94 yr awr. Mae data Eurostat ar gyfer 2015 yn dangos bod y costau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau yn rhyw 20% yn y DU, gan roi cost o gyfanswm o £13.12 yr awr.

8.25 Gan fwrw bod swyddog yn treulio rhyw dair awr o'i amser ar weithgareddau ymgyfarwyddo, bydd cyfanswm y gost ymgyfarwyddo ar gyfer pob sefydliad yn y sector cyhoeddus tua £39.36 (£13.12 x tair awr). Ar sail nifer y cyrff cyhoeddus a nodir uchod, amcangyfrif y bydd y gost untro i'r sector cyhoeddus yn gyfanswm o £61,000. Bydd y gost untro hon yn cael ei hysgwyddo yn 2017-18. Mae'r tabl syddd i'w weld ar ôl paragraff 8.22 yn rhestru'r un grwpiau o gyrff cyhoeddus ag a wnaed yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth y DU wrth asesu costau. Byddai'r diffiniad o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a geir yn y Ddeddf yn cynnwys yr awdurdodau cyhoeddus hynny, ond ni fyddent yn gyfyngedig iddynt.

8.26 Roedd yr asesiad effaith ar gyfer Trade Union Act y DU yn rhagdybio y byddai angen wyth awr i ymgyfarwyddo â'r gofynion. Wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, cafodd yr amser hwnnw ei dorri i dair awr ar gyfer y ddeddfwriaeth hon ar y sail bod angen llai o ymgyfarwyddo pan fo darpariaethau'n cael eu datgymhwyso (gan gynnwys trefniadau didynnu drwy'r gyflogres) a bod gwneud hynny'n adfer trefniadau sy'n bod ers tro ac a ddeellir yn gyffredinol. (D.S. Nid yw gwasanaethau heddlu wedi eu datganoli felly mae'r Asesiad

Rheoleiddiol hwn yn adlewyrchu’r gwahaniaeth hwnnw wrth amcangyfrif costau ymgyfarwyddo).

**Costau adrodd**

8.27 Bydd cyflwyno’r Trade Union Act yn arwain hefyd at gostau adrodd i bob corff yn y sector cyhoeddus, oherwydd y bydd yn ofynnol iddynt bellach adrodd yn rheolaidd am wariant ar amser cyfleuster yr undebau llafur.

8.28 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth y DU yn mynd ati fel a ganlyn i grynhoi sut yr aseswyd y costau:

“Existing legislation already requires public sector bodies to include pay reporting in their annual accounts. For each public sector body, this change in regulation is therefore an extension on current annual reporting rules. The activities associated with reporting are likely to involve an administrative officer collating facility time data, and producing and publishing a report including total spend on facility time as well as associated statistics. It is expected that in smaller public bodies (especially primary and secondary schools) with fewer staff per body such reporting will be very straightforward and will often involve ‘nil returns’ (no facility time spend). In larger bodies, on the other hand, this exercise will be more burdensome”.

8.29 Defnyddiwyd yr un dull wrth asesu’r gost i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Rhagdybiwyd mai swyddogion gweinyddol fydd yn ymgymryd â gweithgareddau adrodd, ac y bydd y gost i gyrff yn y sector cyhoeddus yn £13.12 yr awr, gan gynnwys costau cyflogau a chostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau. Mae nifer y cyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt yn cael eu nodi yn y tabl uchod.

8.30 Amcangyfrifir felly y bydd y gost adrodd flynyddol yn gyfanswm o £104.96 (£13.12 x wyth awr) i bob corff llai o faint yn y sector cyhoeddus (ysgolion) ac y bydd yn gyfanswm o £314.18 (£13.12 x 24 awr) ar gyfer corff cyhoeddus mwy o faint. Amcangyfrifir y bydd y cyfanswm y gost flynyddol i’r sector cyhoeddus yn £171,700 (£104.96 x 1,522 o ysgolion + £314.16 x 38 o gyrff eraill).

8.31 Byddai datgymhwyso’r elfen hon o ddeddfwriaeth y DU yn dileu’r gost flynyddol hon i’r sector cyhoeddus yng Nghymru ac amcangyfrifir y byddai arbedion blynyddol o £171,700. Nid oes unrhyw gost yn gysylltiedig â’r arbedion hyn.

8.32 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth y DU ar gyfer adrodd ar amser cyfleuster yn dweud bod tystiolaeth a ddaeth i’r amlwg ar ôl diwygio’r gwasanaeth sifil yn dangos bod llai o amser â thâl yn cael ei dreulio ar amser cyfleuster yr undebau llafur ers i’r angen i adrodd ar faint o amser a dreulir gael ei gyflwyno ar sail anstatudol.

8.33 Mae’r ffaith bod yna ansicrwydd yn golygu nad oes modd rhoi amcangyfrif manwl ac felly, nid yw’r asesiad yn honni yn y cyfansymiau terfynol ar gyfer yr asesiad o’r effaith y byddai cyflwyno gofyniad i bob

awdurdod cyhoeddus adrodd ar amser cyfleuster yn arwain at fantais â gwerth ariannol. Cyfeirir yn yr asesiad at ansicrwydd ynghylch faint o amser a dreulir ar amser cyfleuster yn y sector cyhoeddus ar hyn o bryd, a hefyd at ansicrwydd ynghylch yr ymateb i gyflwyno gofynion adrodd.

8.34 Mae asesiad Llywodraeth y DU yn cyfaddef nad oes modd profi faint o'r gostyngiad y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r ffaith bod mwy o dryloywder o ganlyniad i'r gofyniad i adrodd ar yr amser a dreulir ar amser cyfleuster. Fodd bynnag, mae'n haeru bod y ffaith bod mwy o dryloywder yn debygol o fod yn ffactor allweddol sy'n cyfrif am o leiaf ran o'r gostyngiad, ac y gallai'r manteision fod yn sylweddol. Pe bai mantais o'r fath, nid fyddai'n cael ei gwireddu pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu datgymhwyso yn achos awdurdodau cyhoeddus Cymru.

8.35 Nid yw'n glir sut y byddai'r manteision sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag adrodd ar amser cyfleuster yn arwain, ynddynt eu hunain, at ostyngiad yn yr amser a dreulir ar amser cyfleuster pe na bai rhyw gamau pellach yn cael eu cymryd neu pe na bai rhyw newid diwylliannol mewn ymateb i'r gofyniad hwnnw. Ni wyddys, felly, beth fyddai'r gost/mantais.

## Didynnu drwy'r gyflogres

8.36 Roedd asesiad effaith Llywodraeth y DU yn seiliedig ar ddileu didynnu o'r gyflogres yn y sector cyhoeddus. Mae'r darpariaethau terfynol yn caniatáu didynnu o'r gyflogres pan fodlonir amodau penodol.

8.37 Mae asesiad effaith Llywodraeth y DU yn nodi bod 22% o'r cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn cael eu had-dalu ar hyn o bryd am ddarparu gwasanaeth didynnu o'r gyflogres. Mae'r taliadau hyn, sy'n gymharol fach (canolrif o 2.5% o'r taliadau tanysgrifio a gesglir), yn dal i fod yn faich gweinyddol ar gyflogwyr a ariennir o'r pwrs cyhoeddus.

8.38 Mae'n anodd cyfrif y costau a fyddai'n gysylltiedig â dileu'r cyfyngiadau ar y darpariaethau sy'n ymwneud â didynnu drwy'r gyflogres, a hynny oherwydd mai mater i'r cyflogwyr a'r cyflogeion yn y sector cyhoeddus gytuno arno fydd penderfynu a ddylid cynnig y gwasanaeth hwn ai peidio ac a ddylent wneud cais i gael eu had-dalu am wneud hynny. Os datgymhwysir y darpariaethau, ni fydd dyletswydd ar y cyflogwyr i ddarparu gwasanaeth didynnu drwy'r gyflogres, ac ni fydd ychwaith yn eu hatal rhag gwneud cais i gael eu had-dalu am y costau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Felly, ni wyddys beth fydd effaith na chost dileu'r cyfyngiadau ar y darpariaethau sy'n ymwneud â didynnu drwy'r gyflogres.

8.39 Mae trafodaethau gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn awgrymu mai bach iawn yw'r costau gweinyddol mewn gwirionedd a bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr ag agweddau eraill ar waith adnoddau dynol.

| | Blwyddyn Ariannol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau** | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Trothwy o 40% | £85,000 | £85,000 | £85,000 | £85,000 | £85,000 |
| Ymgyfarwyddo | £61,000 | | | | |
| **Arbedion o ran costau** | | | | | |
| Adrodd | £171,700 | £171,700 | £171,700 | £171,700 | £171,700 |
| **Cyfanswm yr arbedion** | **£25,700** | **£86,700** | **£86,700** | **£86,700** | **£86,700** |

**<u>Gwaharddiad ar weithwyr asiantaethau</u>**

8.40 Nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu gweithredu ar ei gynigion ymgynghori i ddirymu rheoliad 7 o'r Rheoliadau Asiantaethau Cyflogaeth. Mae rheoliad 7 yn parhau'n gyfraith ac, felly, nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost yn gysylltiedig â gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaethau o dan yr amgylchiadau a ragnodir.

8.41 Yn ôl Asesiad Effaith Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r ymgynghoriad, amcangyfrifir y byddai 22% o'r 650,000 o ddiwrnodau gwaith a gollir oherwydd gweithredu diwydiannol yn cael eu gweithio gan weithwyr asiantaethau. Mae'n amcangyfrif y byddai'r manteision o ran allbwn ychwanegol, ar ôl didynnu costau cyflogau gweithwyr asiantaethau, yn £12.5 miliwn y flwyddyn, ac y byddai £2.9 miliwn o'r swm hwnnw yn fantais i fusnesau yn y sector preifat. Yn ôl yr amcangyfrifon yn Asesiad Effaith Llywodraeth y DU, mae asiantaethau cyflogaeth yn cael ffioedd sy'n werth cyfanswm o £2.6 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir hefyd fod mantais i weithwyr asiantaethau ar ffurf cyflogau, a mantais i'r trysorlys ar ffurf trethi cyflogaeth ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r cyflogau ychwanegol, y trethi cyflogaeth a ffioedd yr asiantaethau yn cael eu hailddosbarthu oddi wrth y cyflogwr.

8.42 Mae'r Asesiad Effaith yn cymryd y budd busnesau hefyd yn wynebu costau ymgyfarwyddo wrth iddynt fynd ati i ddysgu am yr opsiwn i gyflogi gweithwyr asiantaethau ar ôl i reoliad 7 gael ei ddirymu. Mae'n amcangyfrif y bydd y costau i reolwyr adnoddau dynol a chyfarwyddwyr sefydliadau yr effeithir arnynt gan streiciau yn gyfanswm o £1.2 miliwn, ac y bydd £0.1 miliwn o'r swm hwnnw yn gost i fusnesau yn y sector preifat.

8.43 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2015 a chafodd y costau a'r manteision eu hamcangyfrir gan Lywodraeth y DU ar sail data a oedd ar gael ar y pryd. Nid yw'r manteision a'r costau arfaethedig yn Asesiad Effaith y DU wedi cael eu dadansoddi ar wahân ar gyfer awdurdodau datganoledig Cymreig.

8.44 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ar gael drwy'r ddolen isod: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445035/BIS-15-420-IA-conduct-regulations-reg-7.pdf

8.45 Dylid nodi bod y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio wedi datgan nad oedd Asesiad Effaith Llywodraeth y DU yn "addas i'r diben", a hynny oherwydd pryderon am y dystiolaeth a oedd ar gael i gefnogi rhai o'r rhagdybiaethau yn y dadansoddiad.

8.46 Yn ogystal, nid yw Asesiad Effaith Llywodraeth y DU yn edrych ar unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag effeithiau posibl dileu'r gwaharddiad. Er enghraifft, y costau a fyddai'n gysylltiedig ag anghydfodau diwydiannol hirfaith ac estynedig, ac â methiant trefniadau gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol oherwydd y byddai gweithredu diwydiannol yn cael llai o effaith.

**Y sefyllfa ddiweddaraf ar ôl i'r Trade Union Act 2016 gael ei chychwyn**

8.47 Mae'r trothwy o 40% o gefnogaeth yr aelodau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus 'pwysig' wedi'i gymhwyso ers 1 Mawrth 2017. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai'n sail ystyrlon i'w defnyddio wrth asesu'r costau wedi dod i'r amlwg ers i'r Ddeddf gael ei chychwyn ac ers i'r asesiad hwn o gostau gael ei gyhoeddi. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnwys awdurdodau datganoledig Cymreig mewn rheoliadau sy'n gysylltiedig ag amser cyfleuster a'r ddarpariaeth ar ddidynnu taliadau tanysgrifio i undebau drwy'r gyflogres, sydd bellach yn gymwys fel arall, nes i Ddeddf Cymru 2017 gael ei chychwyn.

# Pennod 9: Asesiadau Effaith Penodol

9.1 Cwblhawyd cyfres o asesiadau o effeithiau'r Bil drafft fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Roeddent yn cynnwys:

- Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o’r Effaith ar Hawliau’r Plentyn
- Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad Cyfiawnder
- Asesiad o’r Effaith ar Iechyd
- Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd
- Asesiad Prawfesur o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad
- Effeithiau eraill

9.2 Cafodd yr asesiadau effaith eu hadolygu ym mis Mehefin 2017 a’u diweddaru fel eu bod yn ymdrin â’r ddarpariaeth i wahardd awdurdodau datganoledig Cymru rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle gweithwyr sy’n gweithredu’n ddiwydiannol.

### Y pwyntiau allweddol a nodwyd yn yr asesiadau effaith

9.3 Ar ôl cynnal amryw o asesiadau effaith neu brosesau sgrinio, nodwyd nad oedd unrhyw faterion o bwys mewn perthynas â’r isod. Ni chafodd unrhyw faterion newydd eu nodi yn yr asesiadau effaith o ganlyniad i’r ffaith bod darpariaeth wedi’i chyflwyno i wahardd awdurdodau datganoledig Cymreig rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle gweithwyr sy’n gweithredu’n ddiwydiannol.

### Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

9.4 Cynhaliwyd asesiad llawn o effaith, a nodwyd nad oedd unrhyw effeithiau negyddol o ran materion yn ymwneud â chydraddoldeb. Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i gyhoeddi yma: http://gov.wales/topics/improvingservices/publications/trade-union-bill-impact-assessments/?skip=1&lang=cy

9.5 Bydd nifer o effeithiau cadarnhaol os daw’r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ddeddf. Rydym, drwy gyfrwng deddfwriaeth, yn ceisio atgyfnerthu’r broses o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru, a hefyd gryfhau’r cyfraniad y mae hynny’n ei wneud o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn gwneud hnyny drwy gadw trefniant y cytunwyd arno gyda’r sector cyhoeddus ac sydd, dros amser, wedi bod yn fodd i gynnal perthynas gadarnhaol rhwng cyflogwyr a chyflogeion drwy gydnabod hawliau’r undebau llafur i drefnu gweithredu diwydiannol ac i weithredu’n ddiwydiannol.

9.6 Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y bydd y Trade Union Act 2016 yn tanseilio’r dull hwnnw’n sylweddol, felly bydd llwyddiant yn cael ei fesur

drwy fynd ati'n benodol i ddatgymhwyso'r adrannau hynny o'r Ddeddf a fydd yn gymwys i Gymru.

**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn**

9.7 Cafodd hawliau plant eu hystyried drwy gydol y broses sgrinio a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur yr effaith ar blant, ar bobl ifanc ac ar eu hawliau. Dangoswyd na fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol; felly ni chynhaliwyd asesiad effaith llawn.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

9.8 Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnal y status quo mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. O'r herwydd, ni fyddai unrhyw effaith/bron dim effaith o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Felly, ar hyn o bryd, ni welwyd bod unrhyw effeithiau negyddol o ran Safonau'r Gymraeg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gyhoeddi yma: http://gov.wales/topics/improvingservices/publications/trade-union-bill-impact-assessments/?skip=1&lang=cy

**Yr Asesiad Cyfiawnder**

9.9 Nid oes unrhyw ddarpariaethau newydd yn y Bil sy'n ymwneud â chyfiawnder.

**Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**

9.10 Ystyriwyd yr effaith ar iechyd. Cytunwyd na fyddai dim/bron dim effaith ar faterion yn ymwneud ac iechyd felly nid oedd angen paratoi asesiad effaith.

**Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd**

9.11 Ni fydd angen prosesu unrhyw ddata personol o dan y Bil. Ar ôl cwblhau'r proses sgrinio, gwelwyd nad oed angen asesiad ffurfiol o'r effaith.

**Asesiad Prawfesur o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad**

9.12 Cafodd goblygiadau Bil arfaethedig yr Undebau Llafur (Cymru) eu hystyried drwy ddefnyddio proses sgrinio Llywodraeth Cymru, a gwelwyd na fyddai'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar anghenion penodol cymunedau ac unigolion yng nghefn gwlad.

**Effeithiau eraill**

9.13 Ystyriwyd yr effaith economaidd. Cytunwyd na fyddai unrhyw effaith economaidd neu bron dim effaith economaidd heblaw am y rheini a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol.

9.14 Cwblhawyd y prosesau cam cyntaf neu'r prosesau sgrinio ar gyfer yr asesiadau effaith eraill, ac maent yn cadarnhau nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn cael mwy na'r effaith leiaf bosibl mewn perthynas â'r asesiadau effaith eraill.

**Hawliau Dynol**

9.15 Mae Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

9.16 Pan gafodd Trade Union Act Llywodraeth y DU ei chyflwyno yn Senedd y DU, cyhoeddodd Llywodraeth y DU femorandwm am yr effaith ar yr Hawliau yn y Confensiwn (Rhagfyr 2015). Roedd y memorandwm hwnnw'n cydnabod bod y darpariaethau sy'n ymdrin â'r trothwy o 40% o'r bleidlais ac amser cyfleuster yn effeithio ar yr hawliau yn Erthyglau 11 a 14. Mae Erthygl 11 o'r Confensiwn yn diogelu'r hawl i ryddid i ymgynnull ac i gymdeithasu ac yn cynnwys hawl i ymuno ag undebau llafur er mwyn diogelu buddiannau gweithwyr. Mae Erthygl 14, sy'n un y mae'n rhaid iddi gael ei chymhwyso i un o'r hawliau eraill yn y Confensiwn, yn hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu. Daeth y memorandwm i'r casgliad bod cyfiawnhad dros ymyrryd â'r hawliau hynny oherwydd mai diben Deddf y DU yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gael eu darparu.

9.17 Mae Llywodraeth Cymru yn bendant o'r farn nad yw'r dull gwrthwynebol o weithredu sy'n rhan gynhenid o Ddeddf y DU yn diogelu gwasanaethau cyhoeddus, ac na ellir ei gyfiawnhau. Mae'r cyfyngiadau sydd yn y Ddeddf honno yn tanseilio'r hawliau yn y Confensiwn ac ni ellir eu cyfiawnhau o dan Erthygl 11(2) er mwyn diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill. Mae'r ffordd hon o fynd ati yn gwrthgyferbynnu â'r model o weithio ar sail partneriaethau cymdeithasol, sy'n ffordd brofedig ac effeithiol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac sy'n hyrwyddo'r hawliau yn y Confensiwn. Mae'r model o weithio ar sail partneriaethau cymdeithasol yn dibynnu ar ddiogelu hawliau gweithwyr o dan Erthygl 11 fel eu bod yn cael rhwydd hynt i gymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol ac i gael eu cynrychioli'n effeithiol gan undebau yn y gweithle.

## Pennod 10: Asesu’r Gystadleuaeth

10.1 Mae gofyn cynnal y prawf hidlydd cystadleuaeth os yw’r ddeddfwriaeth yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/neu ar y sector gwirfoddol/y trydydd sector.

10.2 Ni ddisgwylir i’r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth nac i osod cyfyngiadau ar gyflenwyr newydd nac ar gyflenwyr presennol. Disgwylir mai’r undebau llafur a’r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru fydd yn ysgwyddo’r rhan fwyaf o’r costau.

10.3 Bydd y diwygiad sy’n gwahardd awdurdodau datganoledig Cymreig rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle gweithwyr sy’n gweithredu’n ddiwydiannol yn cael yr un effaith â’r gwaharddiad presennol yn rheoliad 7 o’r Rheoliadau Asiantaethau Cyflogaeth, ond bydd y ddyletswydd yn cael ei rhoi bellach ar awdurdodau datganoledig Cymreig i beidio â defnyddio gweithwyr asiantaethau, yn wahanol i’r sefyllfa ar hyn o bryd lle mae’r ddyletswydd bresennol yn gwahardd asiantaethau cyflogaeth rhag cyflenwi gweithwyr.

10.4 Ni ddisgwylir i’r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith ar fentrau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru oherwydd mai dim ond i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru y mae’n gymwys. O ystyried yr atebion isod, nid oes angen cynnal ail gam yr asesiad o’r gystadleuaeth.

| **Prawf hidlydd cystadleuaeth** | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o dros 10% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o dros 20% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran sy’n o leiaf 50% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddent |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, a newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |

| Prawf hidlydd cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A oes newidiadau technolegol ar raddfa fawr yn digwydd o fewn y sector? | Nac oes |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch? | Na fyddai |

# Atodiad 1

## Adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a fewnosodwyd gan Ddeddf Cymru 2017) Diffiniad o "awdurdodau datganoledig Cymreig"

### "157A Devolved Welsh authority"

(1) In this Act ""devolved Welsh authority"" means—

(a) a public authority that meets the conditions in subsection (2),

(b) a public authority that is specified, or is of a description specified, in **Schedule 9A** (whether or not it meets those conditions), or

(c) the governing body of an institution within the higher education sector (within the meaning of section 91(5) of the Further and Higher Education Act 1992) whose activities are carried on, or principally carried on, in Wales.

(2) A public authority meets the conditions in this section if its functions—

(a) are exercisable only in relation to Wales, and

(b) are wholly or mainly functions that do not relate to reserved matters.

(3) In determining for the purposes of this section whether functions of a public authority are exercisable only in relation to Wales, no account is taken of any function that—

(a) is exercisable otherwise than in relation to Wales, and

(b) could (apart from this paragraph) be conferred or imposed by provision falling within the Assembly's legislative competence (by virtue of section 108A(3)).

(4) Where the conditions in subsection (2) are relevant to determining whether a provision of an Act of the Assembly is within the Assembly's legislative competence, the time for assessing whether those conditions are met is the time when the Act is passed.

(5) Her Majesty may by Order in Council amend Schedule 9A—

(a) so as to remove or revise an entry, or

(b) so as to add or substitute a public authority whose functions—

(i)are exercisable wholly or mainly in relation to Wales, and

(ii)are wholly or mainly functions that do not relate to reserved matters.

(6) No recommendation is to be made to Her Majesty in Council to make an Order in Council under this section unless a draft of the statutory instrument containing the Order in Council has been laid before, and approved by a resolution of, each House of Parliament and the Assembly.

(7) Subsection (6) does not apply to a statutory instrument containing an Order in Council that only makes provision for—

(a) the omission of an entry where the authority concerned has ceased to exist, or

(b) the variation of an entry in consequence of a change of name or transfer of functions.

Such an Order in Council is subject to annulment in pursuance of a resolution of either House of Parliament.

(8) In this section “"public authority”” means a body, office or holder of an office that has functions of a public nature.”

## Schedule 9A

### DEVOLVED WELSH AUTHORITIES

- The Adjudication Panel for Wales or Panel Dyfarnu Cymru.
- An admission appeal panel, constituted in accordance with regulations under section 94(5) or 95(3) of the School Standards and Framework Act 1998, for schools in Wales.
- The advisory committee for Wales established under section 5 of the Food Standards Act 1999.
- The Advisory Panel on Substance Misuse or Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau.
- The Advisory Panel to the Welsh Language Commissioner or Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg.
- The Agricultural Advisory Panel for Wales or Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru.

- The Agricultural Land Tribunal for Wales or Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.
- The All-Wales Medicines Strategy Group or Gr?p Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan.
- The Arts Council for Wales or Cyngor Celfyddydau Cymru.
- The Assembly Commission or Comisiwn y Cynulliad.
- The Auditor General for Wales or Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- The Board of Community Health Councils in Wales or Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.
- The Children's Commissioner for Wales or Comisiynydd Plant Cymru.
- The Commissioner for Older People in Wales or Comisiynydd Pobl Hyn Cymru.
- A Community Health Council in Wales.
- The Counsel General or Cwnsler Cyffredinol.
- A county council, county borough council or community council in Wales.
- The Education Workforce Council or Cyngor y Gweithlu Addysg.
- An exclusion appeal panel, constituted in accordance with regulations under section 52 of the Education Act 2002, for schools in Wales.
- A fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004, or a scheme to which section 4 of that Act applies, for an area in Wales.
- The First Minister or Prif Weinidog.
- The Flood and Coastal Erosion Committee or Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.
- The Future Generations Commissioner for Wales or Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- The governing body of an educational establishment maintained by a Welsh local authority (within the meaning of section 162 of the Education and Inspections Act 2006).
- The governing body of an institution in Wales within the further education sector (within the meaning of section 91(3) of the Further and Higher Education Act 1992).

- Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales or Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
- The Higher Education Funding Council for Wales or Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
- Hybu Cig Cymru or Meat Promotion Wales.
- The Independent Groundwater Complaints Administrator.
- The Independent Remuneration Panel for Wales or Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- A joint planning board constituted under section 2(1B) of the Town and Country Planning Act 1990.
- The Local Democracy and Boundary Commission for Wales or Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
- A Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006.
- The Mental Health Review Tribunal for Wales.
- The National Assembly for Wales Commissioner for Standards or Comisiynydd Safonau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- The National Assembly for Wales Remuneration Board or Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- The National Independent Safeguarding Board or Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.
- The National Library of Wales or Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- The National Museum of Wales or Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
- A National Park authority established by an order under section 63 of the Environment Act 1995 for an area in Wales.
- The Natural Resources Body for Wales or Corff Adnoddau Naturiol Cymru.
- An NHS Trust established under section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006.
- A panel constituted under regulation 9 of the Independent Review of Determinations (Adoption) (Wales) Regulations 2006.

- A panel established under regulation 21 of the Social Services Complaints Procedure (Wales) Regulations 2005.
- The person appointed by the Welsh Ministers under section 3 of the Local Government and Housing Act 1989.
- The Public Services Ombudsman for Wales or Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Qualifications Wales or Cymwysterau Cymru.
- A regulated institution within the meaning of the Higher Education (Wales) Act 2015 (ignoring section 26 of that Act) other than an institution within the higher education sector (within the meaning of section 91(5) of the Further and Higher Education Act 1992).
- A rent assessment committee constituted in accordance with Schedule 10 to the Rent Act 1977 (including a leasehold valuation tribunal and a residential property tribunal).
- The Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales or Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Social Care Wales or Gofal Cymdeithasol Cymru.
- The Special Educational Needs Tribunal for Wales or Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.
- The Sports Council for Wales or Cyngor Chwaraeon Cymru.
- A strategic planning panel established for an area in Wales by regulations under section 60D of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004.
- A tribunal constituted in accordance with Schedule 3 to the Education Act 2005 (registration of inspectors in Wales: tribunals hearing appeals under section 27).
- The Valuation Tribunal for Wales or Tribiwnlys Prisio Cymru.
- The Wales Audit Office or Swyddfa Archwilio Cymru.
- The Welsh Dental Committee or Pwyllgor Deintyddol Cymru.
- The Welsh Language Commissioner or Comisiynydd y Gymraeg.
- The Welsh Language Partnership Council or Gyngor Partneriaeth y Gymraeg.
- The Welsh Language Tribunal or Tribiwnlys y Gymraeg.

- The Welsh Medical Committee or Pwyllgor Meddygol Cymru.
- The Welsh Ministers or Gweinidogion Cymru.
- The Welsh Nursing and Midwifery Committee or Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru.
- The Welsh Optometric Committee or Pwyllgor Optegol Cymru.
- The Welsh Pharmaceutical Committee or Pwyllgor Fferyllol Cymru.
- The Welsh Revenue Authority or Awdurdod Cyllid Cymru.
- The Welsh Scientific Advisory Committee or Pwyllgor Ymgynghorol Gwyddonol Cymru.
- The Welsh Therapies Advisory Committee or Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru."

# Atodiad 2

# BIL YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU)

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil yr Undebau Llafur (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Ionawr 2017. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r darllenydd.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo adran o'r Bil yn hunanesboniadol ac nid oes angen unrhyw esboniad neu sylw pellach, nis rhoddir.

3. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i basio'r Bil hwn yn rhinwedd y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### TROSOLWG O'R BIL

4. Mae Deddf yr Undebau Llafur 2016 *(Trade Union Act 2016 (c. 15))* yn mewnosod darpariaethau yn Neddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (*Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992 (c.52)*). Mae'r Bil hwn yn diwygio darpariaethau Deddf 1992 a fewnosodwyd gan adrannau 3, 13, 14 a 15 o Ddeddf 2016 er mwyn eu datgymhwyso i'r graddau y maent yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus penodol a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig, neu'n ymwneud yn fwy cyffredinol â gweithrediadau awdurdodau o'r fath.

5. Mae'r Bil hefyd yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru rhag defnyddio gweithwyr a gyflenwir gan fusnes cyflogaeth (a elwir yn gyffredin yn weithwyr asiantaeth), i gyflawni dyletswyddau staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol swyddogol.

### CEFNDIR POLISI

6. Yn ystod hynt y Bil a ddaeth yn Ddeddf yr Undebau Llafur 2016 drwy Senedd y Deyrnas Unedig, ystyriodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a'i wrthwynebu, gan atal cydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu ar gymalau sy'n ymwneud ag awdurdodau

cyhoeddus Cymru. Roedd y darpariaethau y gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol atal cydsyniad ar eu cyfer yn ymwneud â throthwy cefnogaeth cyffredinol ar gyfer 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig', amser cyfleuster a threfniadau ar gyfer didynnu taliadau tanysgrifio i undebau drwy'r gyflogres.

7. Mae Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn datgymhwyso adrannau 3, 13, 14 a 15 o Ddeddf yr Undebau Llafur 2016 fel y maent yn gymwys i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Y diben yw dileu'r darpariaethau a fydd yn tanseilio dull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol wrth reoli'r sector cyhoeddus er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dull partneriaethau cymdeithasol yn golygu bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau datganoledig yng Nghymru, a gweision sifil a gweithwyr y cyrff hynny, yn gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

8. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y bydd effaith Deddf yr Undebau Llafur 2016 yn un a fydd yn peri rhaniad cymdeithasol, yn arwain at berthnasau mwy gwrthdrawiadol rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac yn tanseilio'r ffordd y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn y pen draw. Mae llwyddiant y model o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yn dibynnu ar gydbwysedd priodol yn y perthnasau rhwng y partneriaid ac yn benodol rhwng undebau llafur a chyflogwyr.

9. Mae'r Bil yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru rhag defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflawni dyletswyddau staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol swyddogol. Y bwriad yw diogelu'r model partneriaethau cymdeithasol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhag arferion a allai tanseilio gweithredu diwydiannol.

**CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL**

10. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol ar undebau llafur a chymdeithasau cyflogwyr wedi ei chynnwys yn Neddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p.52). Yn hanesyddol, roedd undebau llafur yn cael eu trin fel cyrff anghyfreithlon nad oeddynt er budd y cyhoedd. O dan y gyfraith gyffredin, ystyriwyd bod gweithiwr a oedd yn ymwneud â gweithredu diwydiannol yn euog o dorri ei gytundeb cyflogaeth. Roedd undeb llafur a oedd yn cymell gweithredu diwydiannol yn cyflawni camwedd y gellir dwyn achos yn ei gylch sy'n groes i'r athrawiaeth ar lesteirio masnach. Yn sgil diwygiadau undebau llafur rhwng yr 1800au a'r 1900au, cyflwynwyd deddfwriaeth a oedd yn rhoi "imiwneddau statudol" penodol ac a oedd yn drech na statws sefydledig y gyfraith gyffredin.

11. Mae'r ddeddfwriaeth honno wedi ei chydgrynhoi bellach yn Neddf 1992 sy'n diffinio undebau llafur, yn nodi'r fframwaith (gan gynnwys hawliau cyfreithiol a dyletswyddau cyfreithiol) y cânt weithredu oddi tano gan gynnwys ym mha amgylchiadau y caniateir ymgymryd â gweithredu diwydiannol.

12. Mae Deddf yr Undebau Llafur 2016 yn gwneud darpariaethau (ymhlith pethau eraill) ynghylch y gofynion pleidleisio ar gyfer gweithredu diwydiannol swyddogol ac yn mewnosod darpariaethau ynghylch amser cyfleuster yn y sector cyhoeddus a'r amgylchiadau y caniateir i gyflogwyr y sector cyhoeddus ddidynnu taliadau tanysgrifio i undeb llafur o gyflog eu gweithwyr. Bwriad y Bil hwn yw datgymhwyso'r darpariaethau hynny i'r graddau y maent yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig, neu'n ymwneud yn fwy cyffredinol â gweithrediadau awdurdodau o'r fath.

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Adran 1 - Diwygiadau i Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992

*Dileu cyfyngiadau ar ddidynnu taliadau tanysgrifio i undeb llafur o gyflogau yn y sector cyhoeddus*

13. Mae **adran 1(2)** yn darparu nad yw adran 116B o Ddeddf 1992 (a fewnosodwyd gan adran 15 o Ddeddf 2016), sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau y caniateir didynnu taliadau tanysgrifio i undeb llafur o gyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus, yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.

14. Mae rhai cyflogwyr yn didynnu tâl tanysgrifio i undeb llafur o gyflogau eu gweithwyr (cyfeirir at hyn fel didynnu taliadau tanysgrifio i undebau drwy'r gyflogres). Mae adran 116B yn gosod cyfyngiadau fel na chaniateir didyniadau o'r fath oni bai bod gan weithwyr yr opsiwn i dalu eu taliadau tanysgrifio i undeb drwy gyfrwng arall, a bod trefniadau wedi eu gwneud i'r undeb wneud taliadau rhesymol i'r cyflogwr o ran gwneud y didyniadau.

*Datgymhwyso rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig*

15. Mae **adran 1(3)** yn darparu nad yw adrannau 172A a 172B o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (fel y'u mewnosodwyd gan adrannau 13 a 14 o Ddeddf yr Undebau Llafur 2016) yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.

16. Mae adrannau 168 i 172 o Ddeddf 1992 yn gwneud darpariaeth ynghylch "amser cyfleuster", sy'n amser i ffwrdd a ganiateir gan weithwyr at ddiben cyflawni dyletswyddau undebau llafur. Mae adrannau 13 a 14 o Ddeddf 2016 yn mewnosod adrannau 172A a 172B sy'n rhoi pwerau i Weinidog y Goron wneud rheoliadau ynghylch amser cyfleuster.

17. Caiff rheoliadau a wneir o dan adran 172A ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr y sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth am faint o amser cyfleuster a ganiateir. Mae adran 172B yn darparu y caiff Gweinidog y Goron, pan fo'n ystyried ei bod yn briodol, ac wrth roi sylw i faterion yn adran

172B(1), wneud rheoliadau i gapio'r ganran o gyfanswm bil tâl y cyflogwyr sy'n cael ei wario ar dalu swyddogion undebau am amser cyfleuster ac i gyfyngu ar hawliau swyddogion undebau i amser cyfleuster drwy ddiwygio darpariaethau yn adran 172B(4). Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 172B ond tair blynedd ar ôl i'r rheoliadau cyntaf o dan adran 172A ddod i rym.

*Datgymhwyso'r trothwy o 40% o gefnogaeth yr aelodau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus pwysig mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus Cymru*

18. Mae **adran 1(4)** yn darparu na chaiff rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n diffinio "gwasanaethau cyhoeddus pwysig" at ddiben adran 226 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.

19. Mae adran 219 o Ddeddf 1992 yn darparu bod camau penodol a gymerir wrth ystyried neu fwrw ymlaen ag anghydfod masnachol wedi eu diogelu gan na ellir dwyn achos o gamwedd yn eu cylch. Mae adran 226 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff undeb llafur ymgymryd â gweithredu diwydiannol yn y fath fodd fel ei fod yn denu imiwnedd o dan adran 219. Mae hynny'n cynnwys gofyniad bod yn rhaid cynnal pleidlais o aelodau'r undeb. Rhaid i o leiaf 50% (mwyafrif syml) o'r rheini sy'n pleidleisio fod o blaid gweithredu diwydiannol.

20. Mae Deddf yr Undebau Llafur 2016 yn diwygio adran 226 i gynnwys gofynion pellach y mae'n rhaid eu bodloni cyn bod yr imiwnedd statudol yn adran 219 yn gymwys. Mae adran 226(2)(iia) (a fewnosodwyd gan adran 2 o Ddeddf 2016) yn darparu bod yn rhaid i o leiaf 50% (mwyafrif syml) o'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio fwrw pleidlais; a phan fo'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig, mae adran 226(2B) (a fewnosodwyd gan adran 3 o Ddeddf 2016) yn darparu bellach fod yn rhaid i o leiaf 40% ohonynt bleidleisio o blaid gweithredu diwydiannol.

21. Felly, mae adran 226 yn ei gwneud yn ofynnol bellach fod yn rhaid i o leiaf 50% o'r holl aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio arfer eu hawl i bleidleisio, a rhaid i o leiaf 50% o'r rheini sy'n pleidleisio fwrw pleidlais o blaid gweithredu. Er enghraifft, pan fo'r anghydfod yn effeithio ar 1000 o aelodau undeb, mae hynny'n golygu bod yn rhaid i o leiaf 500 o aelodau bleidleisio a rhaid i 251 ohonynt bleidleisio o blaid gweithredu.

22. Mae adran 226(2B) yn gosod gofyniad pellach pan fo aelodau yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig sydd wedi eu diffinio mewn rheoliadau a wneir o dan adran 226(2D) gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid i o leiaf 40% o'r aelodau hynny sydd â'r hawl i bleidleisio fwrw pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol. O ran yr enghraifft uchod, byddai angen i o leiaf 400 o aelodau bleidleisio o blaid gweithredu i'r imiwnedd statudol yn adran 219 fod yn gymwys.

23. Pan ddaw i rym, bydd adran 226(2)(iia) yn gymwys o ran Cymru ond mae adran 1(2) o'r Bil yn darparu nad yw is-adrannau 226(2B) i (2F) yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig.

*Diffiniad o awdurdodau datganoliedig Cymreig*

24. Mae **adran 1(5)** yn diffinio awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig y mae'r Bil yn gymwys iddynt drwy gyfeirio at y diffiniad o "devolved Welsh authority" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w fewnosod gan adran 4 o Ddeddf Cymru 2017). Yn yr adran honno, ystyr "devolved Welsh authority" yw awdurdod cyhoeddus a bennir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf neu sy'n arfer swyddogaethau sydd (a) yn arferadwy o ran Cymru yn unig a (b) yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion a gedwir yn ôl. Caniateir i Atodlen 9A gael ei diwygio gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a gymeradwyir gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Adran 2 – Gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr dros dro i gyflawni dyletswyddau staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol

25. Mae adran 2 yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru rhag cyflogi gweithiwr a gyflenwir gan fusnes cyflogaeth i gyflawni dyletswyddau arferol aelod o'i staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol, neu aelod o staff sy'n cyflawni dyletswyddau'r gweithiwr sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol.

26. Rhaid i'r gweithredu diwydiannol dan sylw fod yn "swyddogol" – sef cysyniad a ddiffinnir drwy gyfeirio at adran 237 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

27. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn effeithio ar y gyfraith bresennol o ran ymddygiad busnesau cyflogaeth a nodir yn Neddf Asiantaethau Cyflogi 1973 neu Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogi a Busnesau Cyflogaeth 2003 (O.S. 2003/3319) a wnaed o dan adran 5 o'r Ddedf honno. (Mae Rheoliad 7 o Reoliadau 2003 yn gwahardd busnesau cyflogaeth rhag cyflenwi gweithwyr yn lle staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol).

# Atodiad 3
# Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl 1

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad | Datganiad yr aelod | Tudalen 2 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 15-18<br>Paragraffau 3.1 - 3.17 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – asesiad effaith | Tudalennau 27-36<br>Paragraff 8.1-8.47 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(iv) | Nodi’r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a’r ffyrdd o’u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu’n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 19-20<br><br>Paragraffau 4.1 – 4.11 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 19-20<br>Paragraffau 4.1 – 4.11 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen 19<br>Paragraff 4.6 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau’r Bil ei wneud (i’r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi’r wybodaeth arall sy’n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil. | Atodiad 2 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 48-52 |
| 26.6(viii) | Nodi’r amcangyfrifon gorau o’r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau | Rhan 2 – Asesiad effaith | <br><br>(a) Tudalennau |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | cydymffurfio gros a’r costau gros eraill y byddai darpariaethau’r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai’r costau’n syrthio | | 23 -24<br><br>(b) Tudalen 23<br><br>(c) Tudalen 23<br><br>(d) Tudalen 23<br><br>(e) Tudalennau 31-33 Paragraff 8.19-8.21, 8.27 |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad effaith | Tudalennau 27-30 Paragraffau 8.1 – 8.14 |
| 26.6(x) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o’r fath:<br><br>(a) y person neu’r corff y rhoddir y pwer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac | Pennod 5 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalen 21 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | (c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | | |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | Tudalen 22 Paragraff 6.2 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol | |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Nid yw'r gofyniad yng Rheol Sefydlog 26.6C yn gymwys i hyn. Er mwyn cynorthwyo'r darllenydd mae Atodiad 4 yn cynnwys tabl sy'n egluro effaith darpariaethau'r Bil ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac mae Atodiad 5 yn dangos Deddf 1992 fel y'i diwygir gan Ddeddf 2016, gyda'r diwygiadau a wneir gan y Bil (fel y'i cyflwynir). | Atodiad 4, 5 |

# Atodiad 4
# Tabl Diwygiadau

Bwriedir i'r tabl isod ddarparu gwybodaeth ynghylch sut mae Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn diwygio darpariaethau mewn cyfraith gyfredol.

**YR ALLWEDD I'R BYRFODDAU**

| | |
|---|---|
| Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016) | DULlChLl(C) |
| Deddf yr Undebau Llafur 2016 | Deddf yr ULl y DU |

| **ADRAN/PARAGRAFF** | **CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES** | **NEWID SYLWEDDOL** |
|---|---|---|
| Adran 1(2) | Adran 116B (3) o DULlChLl(C) | Nid yw adran 116B fel y'i mewnosodwyd gan adran 15 o Ddeddf yr ULl y DU yn gymwys i awdurdodau datganoledig Cymreig. |
| Adran 1 (3) | Adran 172A (2) o DULlChLl(C) | Nid yw "relevant public sector employer" yn adran 172A(2) fel y'i mewnosodwyd gan adran 13 o Ddeddf yr ULl y DU yn cynnwys awdurdodau datganoledig Cymreig. |
| Adran 1(3) | Adran 172B o DULlChLl(C) | Mae "relevant public sector employer" yn adran 172B(a) fel y'i mewnosodwyd gan adran 14 o Ddeddf yr ULl y DU wedi ei ddiffinio yn adran 172A(2) ac nid yw'n cynnwys awdurdodau datganoledig Cymreig. |

| ADRAN/PARAGRAFF | CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES | NEWID SYLWEDDOL |
|---|---|---|
| Adran 1(4) | Adran 226 o DULlChLl(C) | Nid yw "important public services" yn adran 226(E) fel y'i mewnosodwyd gan adran 3 o Ddeddf yr ULl y DU yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan awdurdod datganoledig Cymreig. |
| Adran 1(5) | Adran 297A o DULlChLl(C) | Diffiniad o "devolved Welsh authority" |
| Adran 1(6) | Adran 299 o DULlChLl(C) | Yn mewnosod diffiniad yn adran 297A yn y mynegai. |
| Adran 2 | Rheoliad 7 o Reoliadau Gweithrediad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003 | Nid oes unrhyw ddiwygiad i reoliad 7 ond mae'n gosod dyletswydd gyfatebol ar awdurdodau datganoledig Cymru. |

# Atodlen 5
# Atodlen o ddiwygiadau

**Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (fel y’i diwygir gan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016)**

DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN FIL YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU)

Mae Deddf yr Undebau Llafur 2016 yn diwygio Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992. Mae’r Bil hwn yn gwneud diwygiadau pellach i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf 2016 i awdurdodau datganoledig Cymreig Bwriedir i’r ddogfen hon ddangos Deddf 1992 fel y’i diwygir gan Ddeddf 2016 gyda’r diwygiadau a wneir gan Fil yr Undebau Llafur (Cymru) (os caiff ei ddeddfu fel y’i cyflwynir ar 16 Ionawr 2017).

Ceir llinell drwy’r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil yr Undebau Llafur (Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil yr Undebau Llafur (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. <u>mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn</u>. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Mae’r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o’r Ddeddf na’r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn unig y mae’r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

Sylwer: unig ddiben paratoi'r ddogfen hon yw helpu pobl i ddeall Bil Deddf yr Undebau Llafur (Diwygio) (Cymru). Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

| **Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016** | **Yr adran ddiwygio ym Mil yr Undebau Llafur (Cymru)** |
|---|---|
| **116B Restriction on deduction of union subscriptions from wages in public sector (inserted by section 15 of the Trade Union Act 2016)**<br><br>(1) A relevant public sector employer may make deductions from its workers' wages in respect of trade union subscriptions only if—<br><br>(a) those workers have the option to pay their trade union subscriptions by other means, and<br><br>(b) arrangements have been made for the union to make reasonable payments to the employer in respect of the making of the deductions.<br><br>(2) Payments are "reasonable" for the purposes of subsection (1) if the employer is satisfied that the total amount of the payments is substantially equivalent to the total cost to public funds of making the deductions. | |
| (3) An employer is a relevant public sector employer if the employer is a public authority specified, or of a description specified, in regulations made by a Minister of the Crown.<br><br>(3A) But regulations under subsection (3) may not specify –<br>(a) a devolved Welsh authority, or<br>(b) a description of public authority that applies to a devolved Welsh authority.<br><br>(4) A Minister of the Crown may by regulations provide, in relation to a body or other person that is not a public authority but has functions of a public nature and is funded wholly or mainly from public funds, that the body or other person is to be treated as a public authority for the purposes of this section. | **Adran 1(2)** |

| | |
|---|---|
| (5) Regulations under this section may make provision specifying the person or other entity that is to be treated for the purposes of this section as the employer of a person who is employed by the Crown.<br><br>(6) The regulations may—<br><br>(a) deem a category of persons holding an office or employment under the Crown (or two or more such categories taken together) to be an entity for the purposes of provision made under subsection (5);<br><br>(b) make different provision under subsection (5) for different categories of persons holding an office or employment under the Crown.<br><br>(7) Regulations under this section may—<br><br>(a) make different provision for different purposes;<br><br>(b) make transitional provision in connection with the coming into force of any provision of the regulations;<br><br>(c) make consequential provision amending or otherwise modifying contracts of employment or collective agreements.<br><br>(8) Regulations under this section are to be made by statutory instrument.<br><br>(9) A statutory instrument containing regulations under this section may not be made unless a draft of the instrument has been laid before and approved by a resolution of each House of Parliament.<br><br>(10) In this section—<br><br>"trade union subscriptions" means payments to a trade union in respect of a worker's membership of the union;<br><br>"wages" has the same meaning as in Part 2 of the Employment Rights Act 1996 (see section 27); | |

| | |
|---|---|
| "worker" has the same meaning as in that Act. | |
| **172A Publication requirements in relation to facility time (inserted by section 13 Trade Union Act 2016)**<br><br>(1) A Minister of the Crown may by regulations made by statutory instrument require relevant public sector employers to publish any information within subsection (3).<br><br>(2) An employer is a relevant public sector employer if the employer—<br>(a) is a public authority specified, or of a description specified, in the regulations, and<br>(b) has at least one employee who is a relevant union official.<br>(2A) But regulations under subsection (1) may not specify –<br>(a) a devolved Welsh authority, or<br>(b) a description of public authority that applies to a devolved Welsh authority.<br><br>(3) The information that is within this subsection is information relating to facility time for relevant union officials including, in particular—<br><br>(a) how many of an employer's employees are relevant union officials, or relevant union officials within specified categories;<br><br>(b) the total amount spent by an employer in a specified period on paying relevant union officials for facility time, or for specified categories of facility time<br><br>(c) the percentage of an employer's total pay bill for a specified period spent on paying relevant union officials for facility time, or for specified categories of facility time;<br><br>(d) the percentage of the aggregate amount of facility time taken by an employer's relevant union officials in a specified period that was attributable to specified categories of duties or activities<br><br>(e) information relating to facilities provided by an employer for use by relevant union | **Adran 1(3)** |

| | |
|---|---|
| officials in connection with facility time.<br><br>(4) In subsection (3) "specified" means specified in the regulations.<br><br>(5) The regulations may make provision—<br><br>(a) as to the times or intervals at which the information is to be published;<br><br>(b) as to the form in which the information is to be published.<br><br>(6) The regulations may make different provision for different employers or different categories of employer.<br><br>(7) In this section a "relevant union official" means—<br><br>(a) a trade union official;<br><br>(b) a learning representative of a trade union, within the meaning given by section 168A(11);<br><br>(c) a safety representative appointed under regulations made under section 2(4) of the Health and Safety at Work etc Act 1974.<br><br>(8) In this section "facility time" means time off taken by a relevant union official that is permitted by the official's employer under—<br><br>(a) section 168, section 168A or section 170(1)(b);<br><br>(b) section 10(6) of the Employment Relations Act 1999;<br><br>(c) regulations made under section 2(4) of the Health and Safety at Work etc Act 1974.<br><br>(9) The regulations may provide, in relation to a body or other person that is not a public authority but has functions of a public nature and is funded wholly or mainly from public funds, that the body or other person is to be treated as a public authority for the purposes of subsection (2).<br><br>(10) The regulations may make provision specifying | |

| | |
|---|---|
| the person or other entity that is to be treated for the purposes of this section as the employer of a relevant union official who is employed by the Crown.<br><br>(11) The regulations may—<br><br>(a) deem a category of persons holding an office or employment under the Crown (or two or more such categories taken together) to be an entity for the purposes of provision made under subsection (10);<br><br>(b) make different provision under subsection (10) for different categories of persons holding an office or employment under the Crown.<br><br>(12) No regulations containing provision made by virtue of subsection (9) shall be made unless a draft of the statutory instrument containing them has been laid before Parliament and approved by a resolution of each House.<br><br>(13) Regulations under this section to which subsection (12) does not apply shall be subject to annulment in pursuance of a resolution of either House of Parliament. | |
| **172B Reserve powers in relation to facility time (inserted by section 14 of the Trade Union Act 2016)**<br><br>(1) After the end of the period of three years beginning with the day on which the first regulations under section 172A come into force, a Minister of the Crown may exercise the reserve powers (see subsection (3)) if the Minister considers it appropriate to do so having regard to—<br><br>(a) information published by employers in accordance with publication requirements;<br><br>(b) the cost to public funds of facility time in relation to each of those employers<br><br>(c) the nature of the various undertakings carried on by those employers;<br><br>(d) any particular features of those | **Addasu effaith adran 172B gan y diwygiad i adran 172A** |

| | |
|---|---|
| undertakings that are relevant to the reasonableness of the amount of facility time;<br><br>(e) any other matters that the Minister thinks relevant.<br><br>(2) The reserve powers may not be exercised so as to apply to any particular employer unless—<br><br>(a) a Minister of the Crown has given notice in writing to the employer—<br><br>(i) setting out the Minister's concerns about the amount of facility time in the employer's case, and<br><br>(ii) informing the employer that the Minister is considering exercising the reserve powers in relation to that employer;<br><br>(b) the employer has had a reasonable opportunity to respond to the notice under paragraph (a) and to take any action that may be appropriate in view of the concerns set out in it; and the powers may not be exercised until after the end of the period of 12 months beginning with the day on which the notice under paragraph (a) was given.<br><br>(3) The reserve powers are powers to make regulations—<br><br>(a) applying to relevant public sector employers on whom the publication requirements were imposed, and<br><br>(b) containing any provision that the Minister considers appropriate for the purpose of ensuring that, in each period specified by the regulations, the percentage of an employer's total pay bill spent on paying relevant union officials for facility time does not exceed a percentage that is so specified.<br><br>(4) The regulations may, in particular, make provision restricting rights of relevant union officials to | |

| | |
|---|---|
| facility time by amending or otherwise modifying any of the following—<br><br>(a) section 168 or 168A;<br><br>(b) section 10 of the Employment Relations Act 1999;<br><br>(c) regulations made under section 2(4) of the Health and Safety at Work etc Act 1974.<br><br>(5) The regulations may make provision as to the calculation of working time, of paid facility time, or of an employer's total pay bill.<br><br>(6) The regulations may impose requirements on employers in relation to whom the reserve powers are exercised to publish any further information that the Minister considers appropriate.<br><br>(7) Where requirements are imposed under subsection (6) the regulations may make provision—<br><br>(a) as to the times or intervals at which the further information is to be published;<br><br>(b) as to the form in which the further information is to be published.<br><br>(8) The regulations may provide that some or all of their provisions do not apply—<br><br>(a) in cases specified by the regulations, or<br><br>(b) if a person specified in the regulations is satisfied that conditions that are so specified are met.<br><br>(9) The regulations may confer power on a Minister of the Crown, by notice in writing to a particular employer, to suspend the application of the regulations to that employer for such period and to such extent as the Minister may specify in the notice.<br><br>(10) The regulations may—<br><br>(a) make provision in relation to any or all of the employers in relation to which the | |

| | |
|---|---|
| reserve powers are exercisable;<br><br>(b) make different provision for different employers or different categories of employer;<br><br>(c) make transitional provision in connection with the coming into force of any provision of the regulations;<br><br>(d) make consequential provision amending or otherwise modifying section 170, contracts of employment or collective agreements.<br><br>(11) In this section—<br><br>(a) "publication requirements" means requirements imposed under section 172A or subsection (6);<br><br>(b) "relevant public sector employer" has the same meaning as in section 172A, read with any regulations made under subsection (9) of that section;<br><br>(c) "relevant union official" and "facility time" have the same meaning as in section 172A.<br><br>(12) Subsections (10) and (11) of section 172A apply for the purposes of this section as they apply for the purposes of that section.<br><br>(13) Regulations under this section shall be made by statutory instrument.<br><br>(14) No regulations under this section shall be made unless a draft of them has been laid before Parliament and approved by a resolution of each House of Parliament. | |
| **226 Requirement of ballot before action by trade union (amended by sections 2 and 3 of the Trade Union Act 2016)**<br><br>(1) An act done by a trade union to induce a person to take part, or continue to take part, in industrial action— | |

| | |
|---|---|
| (a) is not protected unless the industrial action has the support of a ballot, and<br><br>(b) where section 226A falls to be complied with in relation to the person's employer, is not protected as respects the employer unless the trade union has complied with section 226A in relation to him.<br><br>In this section "the relevant time", in relation to an act by a trade union to induce a person to take part, or continue to take part, in industrial action, means the time at which proceedings are commenced in respect of the act.<br><br>(2) Industrial action shall be regarded as having the support of a ballot only if—<br><br>(a the union has held a ballot in respect of the action—<br><br>(i) in relation to which the requirements of section 226B so far as applicable before and during the holding of the ballot were satisfied,<br><br>(ii) in relation to which the requirements of sections 227 to 231 were satisfied, *and*<br><br>(iia) in which at least 50% of those who were entitled to vote in the ballot did so, and<br><br>(iii) in which *the majority voting in the ballot* the required number of persons (see subsections (2A) to (2C)) answered "Yes" to the question applicable in accordance with section 229(2) to industrial action of the kind to which the act of inducement relates;<br>(b) such of the requirements of the following sections as have fallen to be satisfied at the relevant time have been satisfied, namely— | |

| | |
|---|---|
| (i) section 226B so far as applicable after the holding of the ballot, and<br><br>(ii) section 231B; .<br><br>(bb) section 232A does not prevent the industrial action from being regarded as having the support of the ballot; and<br><br>(c) the requirements of section 233 (calling of industrial action with support of ballot) are satisfied.<br><br>Any reference in this subsection to a requirement of a provision which is disapplied or modified by section 232 has effect subject to that section.<br><br>(2A) In all cases, the required number of persons for the purposes of subsection (2)(a)(iii) is the majority voting in the ballot.<br><br>(2B) There is an additional requirement where the majority of those who were entitled to vote in the ballot are at the relevant time normally engaged in the provision of important public services, unless at that time the union reasonably believes this not to be the case.<br><br>(2C) The additional requirement is that at least 40% of those who were entitled to vote in the ballot answered "Yes" to the question.<br><br>(2D) In subsection (2B) "important public services" has the meaning given by regulations made by statutory instrument by the Secretary of State.<br><br>(2E) Regulations under subsection (2D) may specify only services that fall within any of the following categories—<br><br>(a) health services;<br><br>(b) education of those aged under 17;<br><br>(c) fire services;<br><br>(d) transport services; | |

| | |
|---|---|
| (e) decommissioning of nuclear installations and management of radioactive waste and spent fuel;<br><br>(f) border security.<br><br><u>(2EA) But regulations under subsection (2D) may not specify services provided by a Welsh public authority.</u><br><br>(2F) No regulations shall be made under subsection (2D) unless a draft of them has been laid before Parliament and approved by a resolution of each House of Parliament.<br><br>(3) Where separate workplace ballots are held by virtue of section 228(1)—<br><br>(a) industrial action shall be regarded as having the support of a ballot if the conditions specified in subsection (2) are satisfied, and<br><br>(b) the trade union shall be taken to have complied with the requirements relating to a ballot imposed by section 226A if those requirements are complied with,<br><br>in relation to the ballot for the place of work of the person induced to take part, or continue to take part, in the industrial action.<br><br>(3A) If the requirements of section 231A fall to be satisfied in relation to an employer, as respects that employer industrial action shall not be regarded as having the support of a ballot unless those requirements are satisfied in relation to that employer. | **Adran 1(4)** |
| **<u>297B Devolved Welsh authorities</u>**<br><br><u>For the purposes of this Act a "devolved Welsh authority" has the same meaning as in section 157A of the Government of Wales Act 2006 (c.32)".</u> | **Adran 1(5)** |